# tafod elái

TACHWEDD 2017

Rhif 322

Pris 80c


## Dathliad 25 mlynedd Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

Helen Prosser a Guto Roberts, Is-Gadeirydd a Chadeirydd cyntaf y Fenter

Sefydlwyd Menter Taf-Elái yn 1992 yn dilyn adroddiad gweithgor a sefydlwyd gan Bwyllgor Gwaith Eisteddfod yr Urdd Taf-Elái 1991. Mae llawer o newidiadau a datblygiadau wedi bod ers y dyddiau cynnar hynny. Newidiodd y fenter i fod yn elusen gofrestredig oedd yn gweithio ledled y Sir ym 1996. Mae wedi newid lleoliad 3 gwaith, wedi cael 4 Prif Weithredwr gwahanol ac wedi sefydlu llawer o wasanaethau a digwyddiadau arloesol dros y chwarter canrif ddiwethaf. Menter Iaith Rhondda Cynon Taf sefydlodd y gwasanaethau plant cyfrwng Cymraeg cyntaf i ddarparu clybiau gofal ôl ysgol a chynlluniau chwarae yn ystod gwyliau ysgol i blant Cynradd. Mae'r gwasaneth hwn yn dal i fynd o nerth i nerth ac yn awr yn cael ei ddarparu mewn nifer o Siroedd eraill. Mae'r Fenter wedi cynnal gwasanaeth cyfieithu, cymorth gwirfoddoli, gwasanaeth ieuenctid ac wedi sicrhau digwyddiadau teuluol a chymunedol llwyddianus iawn. Y mwyaf adnabyddus ohonynt wrth gwrs yw Parti Ponty a gafodd ei atgyfodi yn 2015.

Steffan Webb, Prif Weithredwr cyntaf y Fenter

Ymgyrch Arwyddion 'Ar Agor' 1996

Dewch i ddathlu Penblwydd y fenter yn 25 oed ar y 10ed o Dachwedd yn y Miwni, Pontypridd. Bydd yn noson o adloniant amrywiol o safon uchel gan gynnwys Côr Godre'r Garth, H a'r Band ac eitemau gan glybiau ac ysgolion y Sir. Mae Mei Gwynedd wedi bod yn brysur yn gweithio gyda phob ysgol yn y Sir i greu un cân dorfol a gaiff ei lansio a'i pherffromio ar y noson. Bydd CD o'r gân a chaneuon gwreiddiol ein bandiau ysgolion cyfun ar werth am £3 yr un. Os am ddod i ymuno yn y dathlu, archebwch docyn o Swyddfa docynnau y Miwni.

Cynllun Chwarae Gorau Taf Elái - y Fenter yn Ysgol Rhydfelen1993

## Pencampwr Slalom Awyr Agored Prydain

Teithiodd un o ddisgyblion Blwyddyn 6 Ysgol Creigiau, sef Ffion Lewis, i Gaeredin yn ddiweddar i gystadlu ym Mhencampwriaethau Sgïo Slalom Awyr Agored Prydain. Cystadlodd Ffion yn frwd ac ar ôl tair rhediad anodd ar lethr hir a serth iawn, cyhoeddwyd mai Ffion oedd y pencampwr benywaidd dan 12 oed. Am lwyddiant - rydym yn falch iawn ohonot. Ffion!

## Prosiect Apollo 15

Llongyfarchiadau mawr i bedwar o ddisgyblion Bl 6 Ysgol Gymraeg Tonyrefail ar ennill y wobr gyntaf am greu prosiect am daith Apollo 15 i'r gofod - mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Dark Skies Wales a RhCT. Fel gwobr cawsant y cyfle i gwrdd â'r gofodwr Al Worden a derbyn darn o graig o'r lleuad! Roedd Bl6 wedi mwynhau gwrando ar Al Worden yn trafod ei brofiadau fel gofodwr i NASA yn ystod y gynhadledd yn y Coliseum yn Aberdar. Roedd y criw buddugol wedi ymddangos ar y rhaglen deledu 'Ffeil' i drafod eu profiad o gyfarfod â'r gofodwr.

# Ysgol Creigiau

**Wythnos Genedlaethol Iechyd y Llygaid**
Dathlodd yr ysgol Wythnos Genedlaethol Iechyd y Llygaid drwy gynnal gwasanaeth arbennig. Yn ymuno â ni yn ein gwasanaeth roedd Rebecca Evans, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, pedwar gweithiwr o'r RNIB, optegydd o Ysbyty Plant Arch Noa, ci tywys o'r enw 'Bazz' a chriw teledu o'r rhaglen ddyddiol "Prynhawn Da". Yn ystod y gwasanaeth, Dysgodd y plant nifer o ffeithiau diddorol a phwysig ac roeddynt wrth eu boddau yn holi Kirsty, perchennog y ci tywys.

Yn dilyn y gwasanaeth arbennig yma, cynhaliwyd Diwrnod Gwisgo Dillad Smotiog. Cafodd pawb lawer o hwyl yn eu smotiau gan lwyddo hefyd i gasglu yn agos i £350 tuag at waith yr RNIB.

**Llangrannog**
Ar ddechrau'r tymor aeth Dosbarth 6 draw am wythnos o awyr iach i Langrannog ac i'r Gwersyll ger y Lli! Cafwyd wythnos fythgofiadwy ac roedd pawb wedi mwynhau pob eiliad! Mae un peth yn sicr – fe fydd y disgyblion yn cofio ac yn sôn am y profiadau a gawsant am flynyddoedd lawer i ddod.

**Llithro'r Llethrau**

Perfformiodd y Tîm Sgïo'n wych yng nghystadleuaeth Ysgolion Cymru yn Llangrannog rhai wythnosau yn ôl. Cipiodd Ffion Lewis y wobr gyntaf i ferched o dan 12 oed a daeth Lily Jones yn 3ydd i ferched o dan 10. Fel tîm, daethant yn 6ed allan o'r 20 ysgol oedd yn cystadlu! Tipyn o gamp! Roedd yn ddiwrnod arbennig a'r tywydd yn wych! Llongyfarchiadau gwresog i chi gyd!

**Gweithdy Dawns y Glocsen**
Daeth Tudur Phillips i gynnal gweithdy clocsio gyda disgyblion Dosbarth 3, Class 3, Dosbarth 5 a Class 5. Cafodd y disgyblion gyfle i wisgo clocs dawnsio traddodiadol ac i ddysgu camau traddodiadol a dawns fer. Fe wnaethant fwynhau'n fawr iawn.

# Ysgol Pont-Sion-Norton

**Pêl-rwyd yr Urdd**
Bu twrnamaint yr Urdd yn ddiweddar. Roedd pob un o'r merched wedi mwynhau chwarae ac wedi ymdrechu'n galed. Maent yn edrych ymlaen at y gemau nesaf yn awr!

**Traws-gwlad**
Er gwaethaf y tywydd diflas, cafwyd llwyddiant ac hwyl yng nghystadleuaeth traws-gwlad y sir. Pob lwc i'r timau sy'n mynd ymlaen at y rownd nesaf!

**Côr yr Ysgol**
Nos Iau, Hydref 19eg, perfformiodd Côr yr Ysgol mewn cyngerdd yn y neuadd i godi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Roedd Cantorion Creigiau yn perfformio yn y gyngerdd yn ogystal â thalentau lleol. Roedd hi'n noson lwyddianus iawn - diolch o galon am gefnogi a diolch arbennig i unarddeg cyn-ddisgybl am ymuno gyda'r côr am y noson.

**Ymwelwyr o Ffrainc - Bien-venue!**
Cyn hanner tymor, daeth Maxime a Marie o Ysgol Aunac, Charente, Ffrainc ar ymweliad â'r ysgol. Maent yn awyddus i greu cysylltiadau gyda'r ysgol ac maent eisioes wedi trefnu i blant o'u hysgol ddod ar ymweliad i Gaerdydd. Mae disgyblion Creigiau yn ebostio ac yn ysgrifennu at ddisgyblion yr ysgol er mwyn iddynt ddod i wybod mwy am fywydau a gwledydd ei gilydd. "Merci beaucoup" am ymweld â'r ysgol. Rydyn yn edrych ymlaen yn fawr at gwrdd â'n ffrindiau newydd yn yr Hâf

**Rhyme-Craft**
Cafodd yr Adran Iau ddiwrnod hwylus iawn yn ystod y diwrnod 'Rhyme Craft'. Bu cyfle i ysgrifennu cerddi, chwarae 'Mine Craft' a gwisgo lan fel rhan o'r thema. Diolch i Mrs Barry am drefnu.

**Calan Gaeaf**
Diolch i Ffrindiau Pont-Sion-Norton am drefnu'r disgo Calan Gaeaf. Roedd y plant wrth eu boddau yn dawnsio i gerddoriaeth 10 uchaf ein ymgyrch #Siarteriaith. Diolch i DJ Sampson!

**#Siarter Iaith**
Ar yr wythfed o Dachwedd, mi fydd blynyddoedd 5 a 6 y clwstwr yn dod at ei gilydd ar gyfer disgo #Siarteriaith yn y Miwni. Edrychwn ymlaen at wrando ar gerddoriaeth Gymraeg a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Y Cynhaeaf**
Diolch i'r Parchedig Aled Edwards am gynnal ein gwasanaeth Cynhaeaf ym mis Hydref. Diolch i bawb hefyd am y cyfraniadau tuag at y banc bwyd.

**Ffrainc**
Cafodd Mr Evans brofiad gwych ym mis Hydref - aeth i ymweld ag ysgol yn Ffrainc fel rhan o'n gwaith cyfeillio. Gwelodd amrywiaeth o wersi diddorol a chafodd gyfle i ddysgu am eu diwylliant.

**Pori Drwy Stori**
Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r sioe fach Pori Drwy Stori gyda phlant y dosbarth derbyn. Roedd y plant yn wych!

**Tesco**

Fel rhan o'u thema 'Archfarchnad' aeth blynyddoedd 1 a 2 i Tesco i ddysgu am y bwydydd gwahanol yn y siop. Diolch i Tony Tesco am eu harwain.

**Techniquest**
Aeth dosbarth Mrs Barry a Mrs Williams i Techniquest i ymchwilio ac i wylio'r sioe 'Grymoedd'. Roedd y plant wrth eu boddau yn gweld Mrs Barry yn eistedd ar gadair o hoelion a Mrs Williams yn osgoi pêl fowlio yn ei hwyneb!! Roedd yn gyfle hefyd i'r plant fraslunio rhai o ryfeddodau'r Bae.

**Recordio**
Diolch i Mei Gwynedd am ddod i'r ysgol i recordio cân gyda blwyddyn 6. Edrychwn ymlaen at ei chlywed.

**Macmillan**
Diolch i flwyddyn 6 am drefnu y bore coffi i godi arian tuag at elusen Macmillan ac i bawb ddaeth i gefnogi. Cafwyd ymweliad gan Lloyd Macey o'r X Factor hyd yn oed!!!! Mae pawb o Bont-Siôn-Norton tu ôl i ti Lloyd!!

# Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

**Techniquest**
Bu disgyblion y dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 ar ymweliad â Techniquest yn ddiweddar. Fe gafodd pawb amser hwyliog wrth ddysgu am y corff dynol.

**Diwrnod T Llew Jones**
Ar Hydref yr unfed ar ddeg, buom yn dathlu Diwrnod T Llew Jones, pan ddaeth y disgyblion (ac ambell aelod o staff!) i'r ysgol wedi'u gwisgo fel rhai o gymeriadau nofelau T Llew Jones. Yn ystod y dydd bu'r disgyblion yn cyflawni pob math o weithgareddau'n seiliedig ar fywyd a gwaith T Llew.

**Diwrnod Shwmae**
Ddydd Gwener y trydydd ar ddeg o Hydref (dau ddiwrnod yn gynnar!), mi fuom yn dathlu Diwrnod Shwmae, gyda phob dosbarth yn trafod pwysigrwydd siarad Cymraeg a bod yn falch o'n hiaith.

**Cân y Dathlu**
Bu disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yn lwcus iawn yn ddiweddar, gan fod Mei Gwynedd a Gwyndaf Lewis wedi ymweld â ni er mwyn dysgu cân arbennig i'r plant – sef cân i ddathlu penblwydd Menter Iaith Rhondda Cynon Taf. Bydd rhai o'r disgyblion yn perfformio'r gân yn nathliad penblwydd y fenter yn y Miwni ar nos Wener y degfed o Dachwedd.

**Y Cynhaeaf**
Fe ddaeth Mr Adam Coleman atom ar Hydref yr ail ar bymtheg i arwain gwasanaeth arbennig ar ddathlu'r Cynhaeaf. Diolch i bawb anfonodd gyfraniadau o fwyd i mewn i'r ysgol – casglwyd 139.4 kg o fwyd er budd Banc Bwyd Pontyclun.

**Brwsio Dannedd**
Mae disgyblion y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn wedi bod yn cael hyfforddiant ar sut i frwsio'u dannedd yn ddiweddar. Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r rhieni hefyd, er mwyn pwysleisio pwysigrwydd gofalu am y dannedd.

**Llangrannog**
Soniwyd yn y rhifyn diwethaf, fod disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 wedi bod yn Llangrannog am benwythnos, nôl ym mis Medi. Dyma luniau o'r plant yn mwynhau rhai o'r gweithgareddau.

## Ffair Efail Isaf

(Tudalen 6)

Côr Ysgol Creigiau yng Nghyngerdd Apêl Eisteddfod Caerdydd

Bore Coffi MacMillan Pentyrch

**Diolch**
Dymunwn ddiolch i Gareth Richards a staff Gwasg Morgannwg, Castell Nedd, am argraffu Tafod Eláí dros y 23 mlynedd diwethaf. Mae wedi bod yn bleser cydweithio gyda Gareth a dymunwn yn dda iddo ar ei ymddeoliad.

# Creigiau

**Priodas Gethin a Jordan!**
Llongyfarchiadau i Gethin a Jordan Davies ar eu priodas ym mis Awst.

Mae Gethin yn fab i Gareth a Sylvia Davies, Parc Castell y Mynach a merch Paul ac Anne Beddoe, Brummel Drive yw Jordan.

Dyweddiodd y pâr ar draeth Poppit ger Aberteifi, man agos at galon teulu'r Davies a chynhaliwyd y briodas yn Estepona, Sbaen, sef tref sy'n agos at galon teulu'r Beddoe.

David Evans oedd y prif was priodas ac Arwyn Davies, brawd Gethin oedd yn cynorthwyo. Y morynion priodas oedd Alex Bevan, chwaer Jordan a Lowri Davies, chwaer Gethin. Roedd Mila, nith Jordan yn forwyn fach.

Wedi bod ar eu mis mêl ym Mharis, mae'r cwpwl wedi ymgartrefu yng Ngwaunmeisgyn. Pob hapusrwydd eich dau!

Priodas Lowri a James (tudalen 5)

**Ein darllenydd ifancaf tybed?**
Wele **Gruff** wrth ei fodd yn darllen **y Tafod**! Mab bach Angharad a Chris Gubby yw Gruff - tipyn o 'bry llyfr' i ddefnyddio term Rhys Dafis gynt! On'd yw e'n gariad bach?

Catrin Stevens a Dr Hefin Jones yng Nghinio Cronfa Glyndŵr (tudalen 7)

Noson Clwb y Dwrlyn gyda Huw Llywelyn Davies yn holi Bryn Fôn

Bryn Fôn gyda chyn-ddisgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle

## Cyw yn dod â hwyl a hud y Nadolig i Gwm Rhymni!

Mae Cyw a'i ffrindiau yn dod i'r ardal cyn hir fel rhan o daith i ddymuno Nadolig Llawen i blant ar hyd a lled Cymru.

Bydd rhai o gyflwynwyr a chymeriadau hoffus S4C - Huw, Elin, Ben Dant a'i ffrind Cadi, Seren o blaned Asra ac, wrth gwrs, Cyw ei hun - yn dod i Goed Duon ar 28 o Dachwedd ac maen nhw'n eich gwahodd chi i ymuno â nhw yn yr hwyl!

Bydd dwy sioe yn cael eu cynnal yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Coed Duon, ar 28 o Dachwedd, ac mae'r sioeau yn dechrau am 10.15 neu 1.45.

I brynu eich tocyn, dilynwch y ddolen ar wefan s4c.cymru/cyw

Mae'n bosibl archebu tocynnau ar gyfer grwpiau os ydych chi'n dymuno trefnu trip ar gyfer eich ysgol, mudiad meithrin neu grŵp chwarae. Mae croeso mawr i bawb yn Sioe Cyw!

Bydd ffi bwcio o £1.00 ar bob archeb sy'n cael ei wneud dros y ffôn neu ar-lein. Cysylltwch â Galeri ar 01286 685 222 os gewch unrhyw anawsterau.

Mae Sioe Nadolig Cyw yn boblogaidd iawn pob blwyddyn a'r tocynnau yn gwerthu'n gyflym, felly peidiwch ag oedi!

# PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

**Priodas Lowri a James (Llun tudalen 4)**
Llongyfarchiadau i Lowri Mair Jones a James Hale ar eu priodas ar 23 Medi. Merch Ceinwen a Tom Jones, gynt o'r Comin, Pontypridd, yw Lowri. Mae hi'n gweithio i'r BBC, ar hyn o bryd fel golygydd sgript ar *Pobol y Cwm*. Mae James yn hanu o Swydd Warwick yn wreiddiol ond mae wedi byw yng Nghaerdydd ers nifer o flynyddoedd, ac mae'n gweithio fel cynhyrchydd annibynnol ar gyfer teledu a radio. Cynhaliwyd y briodas a'r wledd briodas yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd. Treuliodd Lowri a James eu mis mêl byr yn yr Alban. Maent wedi ymgartrefu yn Grangetown, Caerdydd.

**Merched y Wawr**
Fe fydd y gangen yn cwrdd nos Iau, Tachwedd 9fed pan ddaw Yvonne Evans, Caerdydd i sgwrsio am 'Y tywydd a fi'. Mae'r cyfarfod ym mis Rhagfyr yng ngofal yr aelodau. Dewch i Festri Capel Sardis nos Iau Rhagfyr 14eg am noson o gerdd a chân Nadoligaidd.

**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau i Cathryn Vukashin Jones a'i gwr Nathan, Graigwen ar eni Theodore Henry. Mae Joseph wrth ei fodd a'i frawd bach newydd.

Dymuniadau gorau i Osian a Mari, Caerdydd ar enedigaeth Non Meinir Llywelyn. Wyres gyntaf i Owain Llewelyn a gor-wyres i Eirwen Williams Porthaethwy.

Croeso i Catrin Celyn, plentyn cyntaf Rhiannon a Rhys Price , Hillside View, Graigwen.

**Clwb llyfrau.**
Nofel Saesneg sy dan sylw y mis yma sef 'Birdcage Walk' gan Helen Dunmore. Fe fydd y grŵp yn cwrdd nos Fawrth, Tachwedd 14eg am 8 o'r gloch yng Nghlwb y Bont.

Dwy nofel Gymraeg yw'r cyfrolau ar gyfer trafod ym mis Rhagfyr sef 'Glas a gwyrdd' gan Eiry Miles a 'Gwales' gan Catrin Dafydd. Croeso i Glwb y Bont nos Fawrth Rhagfyr 19eg am 8.00p.m.

**Croeso nôl**
Mae Magi Dodd a'i chariad Aled Roberts wedi ymgartrefu yn ddiweddar yn Heol Tyfica. Mae Magi yn lais cyfarwydd ar Radio Cymru a wastad yn ymfalchïo ei bod yn 'Ponty girl'.Pob hapusrwydd yn eich cartref newydd.

**Oes gafr eto?**
Fe dderbyniodd Wil Morys Jones anrheg anghyffredin yn ddiweddar pan ddaeth criw o Fangladesh a gafr i Wil i ddiolch iddo am ei waith gyda BanglaCymru. Ond twyll oedd y cyfan pan ddatgelodd Nigel Owens y bydde Wil yn ymddangos ar ei raglen 'Wyt ti'n gêm?'. Roedd nifer o ffrindiau Wil yn y gynulleidfa yn ystod recordio'r rhaglen ac fe gafodd e dlws arbennig 'Hoelen Wyth'.

**Pwyllgor Ardal Pontypridd.**
Mae'r pwyllgor yn trefnu cwis Nadolig (dwyieithog) yng Nghlwb y Bont nos Wener Rhagfyr 8fed am 7.30 p.m. Timau o 4 neu lai. £ 3 y pen. Dewch am noson o hwyl.

Mae P.A.P. wedi sefydlu er mwyn cefnogi Clwb y Bont ac yn gobeithio trefnu nifer o ddigwyddiadau yn y dyfodol.

**Cydymdeimlo**
Ym mis Hydref yn 70 oed bu farw Dewi Arwel Hughes, Heol Merthyr, Pontypridd. Buodd yn gweithio am flynyddoedd i'r elusen 'Tearfund'. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolch am fywyd Dewi yng nghapel Temple, Pontypridd. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w wraig, Maggie a'r plant- Daniel, Steffan, Rebecca, Anna a Lydia a'u teuluoedd.

Estynnwn ein cydymdeimlad i Meinir a Brian Raby. Bu farw brawd yng nghyfraith Meinir sef Jim Criddle, Pontllanffraith yn ddiweddar. Roedd yn ŵr i'r diweddar Rhian ac yn dad i Betsan, Geraint a Branwen.

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail (Lluniau tudalen 16)

**Cronfa Glyndŵr**
Diolch i garedigrwydd Cronfa Glyndŵr roedd yr ysgol wedi llunio a dosbarthu pamffledi o gwmpas ardal Tonyrefail a Gilfach Goch yn hyrwyddo manteision addysg Gymraeg. Mae nifer o rieni wedi cysylltu â'r ysgol yn sgil derbyn y bamffled, felly roedd yr ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o addysg Gymraeg yn llwyddiannus iawn.

**Llysgenhadon Gwych**
Aeth dau o ddisgyblion yr ysgol i weithdy Llysgenhadon Comisiynydd Plant Cymru yng Nghanolfan y Mileniwm. Cafwyd cyfle i gwrdd â Sally Holland y comisiynydd ac i gymeryd rhan mewn gweithdai yn trafod hawliau plant.

**Gwasanaeth Cynhaeaf**
Diolch yn fawr i'r Parch. Evan Morgan, Capel Salem Caerdydd am ddod i gynnal ein gwasanaeth Diolchgarwch yn ei ffordd hwyliog arferol. Diolch yn ogystal i'r dosbarthiadau am drefnu eitemau i ddathlu'r cynhaeaf. Dosbarthwyd y bwyd a gasglwyd i henoed yr ardal ac fe gasglwyd £90 tuag at waith UNICEF. Diolch i'r Cyngor Ysgol a Blwyddyn 4 am ddiddanu'r henoed yng Nghanolfan Ddydd Tonyrefail tra'n dosbarthu'r bwyd.

**Blasu Bwydydd yr Hydref**
I ddathlu tymor y cynhaeaf cafodd disgyblion Blwyddyn 1 gyfle i flasu bwydydd tymor yr hydref. Gwers flasus iawn!

**Dathlu 25 y Fenter**
Daeth y cerddor Mei Gwynedd i recordio'r plant yn canu cân dathlu 25 mlynedd o Fenter Iaith Rhondda Cynon Taf. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr ac mae'r gân wedi profi i fod yn un bachog iawn!

**Sgiliau Pêl-droed**
Cafodd disgyblion Bl2 a 3 gyfle i ymarfer eu sgiliau pêl droed o dan lygaid barcud hyfforddwyr o Cambrian Trust. Roedd y plant wedi mwynhau pob eiliad o'r sesiwn hyfforddi.

**Arweinwyr Digidol**
Bu Arweinwyr Digidol Bl5 a 6 ar ymweliad ag ysgol Bro Edern i dderbyn hyfforddiant sgiliau digidol. Mae'r arweinwyr nawr yn rhannu eu sgiliau â holl ddisgyblion yr ysgol.

**Diwrnod Baw, Annibendod a Chymysgeddau**
Fel rhan o'u gwaith y tymor hwn cafodd plant y Dosbarth Derbyn a'r Dosbarth Meithrin ddiwrnod baw, annibendod a chymysgeddau. Roedd pawb wedi mwynhau torchi eu llewys a baeddu eu dwylo!

**Bore Coffi MacMillan**
Diolch yn fawr i'r Cyngor Ysgol a Miss Hughes am drefnu bore coffi llwyddiannus iawn i MacMillan yn yr ysgol. Casglwyd £290 tuag at yr elusen. Diolch yn fawr i'r rhieni a'r neiniau a teidiau am gefnogi.

**Trosglwyddo**
Bu Blwyddyn 6 ar ymweliad ag Ysgol Llanhari fel rhan o'r cynllun trosglwyddo. Roeddynt wedi mwynhau cymeryd rhan yn y gweithdai amrywiol.

**Yr Urdd**
Fel rhan o weithgareddau wythnosol yr Urdd cafodd disgyblion yr adran iau gyfle i ddathlu Calan Gaeaf drwy baratoi bwydydd blasus a naddu pwmpenni.

**Castell Caerdydd**
Buodd Bl 3-6 ar drip i gastell Caerdydd i gymeryd rhan mewn gweithdai ar yr Ail Ryfel Byd i gyd fynd â'r thema'r tymor hwn. Roeddynt wedi cael amser wrth eu boddau ac wedi dysgu llawer am fywyd yn ystod y rhyfel.

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Dathlu**
Dymuniadau gorau i'r Parchedig Eirian Rees a fu'n dathlu pen-blwydd arbennig yn ystod y mis.

**Ffair Hydref**
Cynhaliwyd Ffair Hydref hynod o lwyddiannus yn Neuadd y Pentref ddydd Sadwrn, Hydref 14eg. Daeth nifer dda ynghyd i gefnogi'r ffair ac mi roedd amrywiaeth o stondinau yno yn cynnwys gemwaith, gwaith cerameg, gwaith pren a thecstilau. Roedd cyfle i gael paned a theisen a sgwrs hamddenol gyda ffrindiau o'r pentref. Mae Karen Evans, a drefnodd y ffair am ddiolch am y gefnogaeth a gafodd gan ffrindiau ac yn falch o ddweud fod dros £1000 o elw wedi ei gyflwyno ar Ymchwil Nychdod Cyhyrol (Muscular Dystrophy).

**Noson i'w Chofio**
Cynhaliwyd noson fywiog o ganu acwstig yn Nhafarn y Carpenters nos Sadwrn, Hydref 7fed. Roedd y lle'n orlawn a phawb yn ymuno i ganu caneuon i gyfeiliant telyn, ffidil a gitâr o dan arweiniad Huw M. Cymaint oedd y mwynhad nes penderfynwyd cynnal noson debyg nos Sadwrn, Rhagfyr 16eg.

**Parti'r Efail**
Llongyfarchiadau i Barti'r Efail ar ennill dwy wobr gyntaf yng nghystadleuaeth yr Alaw Werin a'r parti cerdd Dant yn Eisteddfod y Cymoedd yng Nghaerffili nos Wener, Hydref 20fed. Mae'n amser prysur i aelodau'r parti gan eu bod wedi canu gyda Chôr y Dre o Gaernarfon yng Nghaerdydd ar y noson ganlynol. Dymunwn yn dda iddynt hefyd yn yr Ŵyl Gerdd dant yn Llandysul ar Dachwedd 11eg.

**Enillydd Gwobr Bafta Cymru**
Llongyfarchiadau gwresog i Catrin Meredydd ar ennill gwobr Bafta Cymru am ei gwaith fel cynllunydd cynhyrchiad y ffilm "Damilola, our loved boy." Bu Catrin yn byw yn y pentref yn Efail Isaf flynyddoedd lawer yn ôl, yn ferch i Meredydd Owen a'r diweddar Eleanor. Roedd yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Llanhari. Llongyfarchiadau mawr iti, Catrin.

**Arlunydd o fri**
Mae gennym arlunydd o fri yn y pentref. Fe enillodd Cliff Hewitt, Penywaun, y wobr gyntaf yn y "Paint Fest" yng Ngarth Olwg, a hynny am y drydedd waith yn olynol. Mae aelodau'r tri dosbarth arlunio sy'n cyfarfod yn y Ganolfan yng Ngarth Olwg yn creu arddangosfa o'u gwaith ac fe ddewisir enillydd o'u plith.
Llongyfarchiadau mawr iti, Cliff.

**Y TABERNACL**
**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Linda Ladd ar golli ei brawd ar Ynys Manaw yn ddiweddar. Yr un yw ein cydymdeimlad ag Emlyn ag Ann Davies ar golli chwaer Emlyn yn ystod y mis.

**Aelod newydd**
Pleser oedd cael derbyn aelod newydd arall i'n plith yn y Tabernacl. Mae Non Morris a'r plant o Feisgyn wedi bod yn dod i'r Oedfaon ers tro. Mae Non yn hanu o Bwll Trap ger San Clêr. Croeso cynnes ichi.

**Priodas**
Llongyfarchiadau gwresog i Eleri Middleton a Tom Curran ar eu priodas yn y Tabernacl ddydd Sadwrn, Hydref 21ain.

**Gwasanaeth diolchgarwch**
Cynhaliwyd y gwasanaeth diolchgarwch gan blant yr Ysgol Sul ac aelodau Teulu Twm ddydd Sul, Hydref 15fed. Arweiniwyd yr Oedfa gan Beth a Huw Roberts a chafwyd oedfa fywiog a phwrpasol. Yn ystod y bore casglwyd llwyth o fwyd ar gyfer y Banc bwyd. Cafwyd casgliad ar gyfer y ffoaduriaid sydd wedi ffoi o Myanmar i Fangladesh ar ddiwedd yr Oedfa ac roedd y cyfanswm dros £600.

**Merched y Tabernacl**
Fore Iau, Hydref 12fed daeth Merched y Tabernacl ynghyd i'r Ganolfan i gael paned a chlonc. Ein cyfarfod nesaf fydd "Paratoi ar gyfer y Nadolig" yng nghwmni Marian Evans. Byddwn yn cyfarfod yn y Ganolfan fore Mawrth, Tachwedd 14eg am hanner awr wedi deg y bore. Croeso i aelodau newydd i ymuno. Dwi'n siŵr y cawn fore diddorol iawn.

**"Adref"**
Bydd y casgliad ar gyfer "Adref" yn ehangu dros y misoedd nesaf. Yn ogystal â derbyn nwyddau a thrugareddau ar gyfer y siop sy'n cynhyrchu cyllid ar gyfer y gwaith o ymgeleddu'r digartref, byddwn yn derbyn dillad, offer, nwyddau ar gyfer babanod a phlant, dillad oedolion, dillad gwely, sachau cysgu a nwyddau hylendid. Gellir gadael eich cyfraniadau yn llofft y capel.

**Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Tachwedd**
Tachwedd 5ed Cymun. Y Parchedig Eirian Rees
Tachwedd 12fed Oedfa Sul y cadoediad - Y Parchedig Aled Edwards. Hefyd Taith i Bantycelyn
Tachwedd 19eg Oedfa Deuluol o dan ofal Wyn a Mari Jones
Tachwedd 26ain Y Parchedig Gethin Rhys.

## Cangen Y Garth Merched y Wawr - Lleisiau o Lawr y Ffatri

Cafodd aelodau cangen Y Garth noson ddifyr iawn yng nghwmni'r hanesydd Catrin Stevens ddechrau mis Hydref. Mae Catrin yn un o Gyn-lywyddion Merched y Wawr ac mae hefyd wedi bod yn Olygydd 'Y Wawr,' cylchgrawn y mudiad. Ei phrif ddiddordeb yw hanes Cymru a hanes menywod yng Nghymru gan ddehongli'r hanes hwnnw i blant ac oedolion yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Hi yw Cadeirydd Archif Menywod Cymru a bu'n sôn am y gwaith arbennig mae'r mudiad hwnnw yn ei wneud. Ffrwyth prosiect cyffrous gan Archif Menywod Cymru yw 'Lleisiau o Lawr y Ffatri'. Esgeuluswyd hanes menywod ar hyd y canrifoedd a nod yr Archif yw codi ymwybyddiaeth o hanes menywod yng Nghymru ac achub a diogelu ffynonellau'r hanes hwnnw. Clywsom nifer o leisiau yn ystod sgwrs Catrin, lleisiau a gododd atgofion yn nifer ohonom am y ffatrïoedd hynny sydd wedi hen gau erbyn hyn. Yn wir, bu rhai o'n haelodau yn sôn am eu profiadau yn gweithio yn rhai o'r ffatrïoedd yn ystod y gwyliau pan oeddent yn fyfyrwyr mewn colegau. Er bod y merched yn gweithio'n galed iawn roedd y gwmnïaeth yn arbennig.

Os oes diddordeb gennych mae'r prosiect cyflawn, yn cynnwys y cyfweliadau gwreiddiol, y darluniau a'r adysgrifau ar adnau yn Archif Sgrin a Sain Genedlaethol Cymru yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

Diolch i Catrin a'i chyd-aelodau yn Archif Menywod Cymru am y gwaith pwysig y maent yn ei gyflawni wrth gofnodi'r hanesion hyn a diolch i Catrin ei hun am noson arbennig iawn.

## Gweithgareddau Teulu Newydd Menter Caerdydd

Yn dilyn gwyliau'r hanner tymor bydd dau weithgaredd Teulu yn cael eu hychwanegu i'n calendr wythnosol:

Amser Stori - Llyfrgell Cathays - Dydd Llun 2:15 - 2:45pm (Yn dechrau'r 6ed o Dachwedd). Cyfle i rai bach wrando, canu a chymdeithasu mewn awyrgylch gyfeillgar a chroesawgar. Sesiynau rhad ac am ddim drwy gydol tymor yr ysgol - dim angen archebu o flaen llaw!

Nofio i Ddechruwyr - Hyb STAR Sblot - Dydd Mawrth 10:30 - 11am (Yn dechrau'r 7fed o Dachwedd)
Cwrs nofio chwe wythnos i rai 3-4 oed - croeso i ddechreuwyr cwbwl ddi-brofiad!
Archebwch ar-lein:
http://www.mentercaerdydd.cymru

# Bethlehem Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon** (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**
**Mis Tachwedd 2017:**
5 – Oedfa dan ofal Geraint Rees
12 – Oedfa gymun dan ofal y Parchedig. R Alun Evans
19 – Oedfa dan ofal Delwyn Sion
26 - Oedfa dan ofal y Parchedig Allan Pickard
**Mis Rhagfyr 2017:**
3 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion (5:00 p.m.)
10 – Ymweld a Chartref yr Henoed (10:30 a.m.)
Naw Llith a Charol (5:00 p.m.)
17 – Cyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul
24 – Oedfa Nadoligaidd
25 – Oedfa Bore'r Nadolig
31 – Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Owen

ooooOOOOoooo

Dwi am fynd a chi am daith i Bortiwgal!
Nid i Lisbon, y brifddinas, ond yn hytrach i Porto, yr ail ddinas, sydd wedi ei lleoli ar lan yr afon Douro.

Mae tua 2.4 miliwn o boblogaeth o fewn dalgylch y ddinas hon ac mae canol hanesyddol y ddinas yn un o safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO ers 1996.

Mae damcaniaeth mai "*Portus Cale*" oedd yr enw gwreiddiol ar y ddinas, yn deillio o'r gwreiddyn Celteg-Lladin, yn brawf o fodolaeth y Celtiaid yno, ers 300 cyn Crist, ac wedyn y Rhufeiniaid, yn y rhanbarth.

Daeth yr enw Portus Cale wedyn yn Portiwgal, ac felly'n enw ar y wlad gyfan.
Fel pob dinas ag afon yn rhedeg trwyddi mae 'na bontydd yn cysylltu'r ddwy lan – yn wir cyfeirir at Porto fel dinas y pontydd.

Yma mae 'na bont reilffordd nodedig mewn haearn bwrw a gynlluniwyd gan Gustave Eiffel (sy'n fwy enwog fel cynllunydd Tŵr Eiffel ym Mharis), a hefyd bont fwa ar gyfer cerbydau (ceir, metro, cerddwyr) o waith un o'i bartneriaid a agorwyd yn 1886 (Ponte de Dom Luis I).

Mae'n ddinas hynafol, ac yma lleolir selerydd port mwya'r byd. O ben tŵr uchaf y ddinas, a adeiladwyd rhwng 1732 a 1750, er budd Brawdoliaeth y Clerigwyr, y Torre dos Clérigos, gallwch weld, yn y Vila Nova de Gaia, ar ochr ddeheuol yr afon, enwau amlwg y cynhyrchwyr fel rhes o boteli ar silffoedd mewn archfarchnad, megis Sandeman, Grahams a Cockburn. (Mae'r tŵr yn 75.6 metr o uchder ac mae 240 gris i'w dring cyn cyrraedd y top!)

I'r gorllewin o'r ddinas mae Môr yr Iwerydd. Y tir nesaf tu hwnt i draethau Porto tua'r gorllewin yw cyfandir America. Oddi ar yr arfordir cyfagos y bu i rai o anturiaethwyr mawr y byd gychwyn ar eu mordeithiau yn "Oes y Darganfyddiadau" a hwylio i gyfandir America, yr Affrig ac India, gan ddechrau ar y gyfundrefn o goncro a masnachu byd-eang. Dewiswyd Porto (ar y cyd a Rotterdam) yn Ddinas Diwylliant Ewrop yn 2001.

Yn ogystal â phontydd mae gan Porto, fel mwyafrif dinasoedd cyfandirol Ewrop, ei chyfran helaeth o eglwysi, a'r rhan fwyaf ohonynt yn rhai o faint sylweddol.

Yr Eglwys Gadeiriol Gatholig (y Se do Porto) ydi un o'r adeiladau hynaf yn y ddinas – fe'i hadeiladwyd tua 1110, er bod tystiolaeth bod addoli yn yr ardal ers y 5ed a'r 6ed ganrif.

Ond i un arall o'r eglwysi yr ydw'i am eich tywys – i Capela de Santa Catarina.
'Roeddem yn pasio'r eglwys fechan yma rhyw ben bob dydd oherwydd ei bod ar y ffordd o'r gwesty i ganol y ddinas.

Roedd hi wedi ei lleoli ar gornel stryd Rua de Santa Caterina a Rua de Fernandes Tomas. Eglwys wedi ei hadeiladu yn y 18fed ganrif ydi hi ond wedi cael cryn waith wedi ei gwneud arni dros y blynyddoedd ers hynny.

Does 'na ddim llawer i gynhyrfu rhyw bwt o Anghydffurfiwr oddi mewn i'r eglwys - tydwi ddim yn ffan o'r eiconau a'r goreuro a'r canhwyllau ac yn y blaen. Ond mae'r tu allan yn drawiadol ryfeddol.

Yn 1929, i gynllun gan Eduardo Leite, fe orchuddiwyd y muriau a theils glas a gwyn "*azulejo*" wedi eu cynhyrchu yn Lisbon, 15947 ohonynt i gyd, er na fu i mi eu cyfrif fy hunan, a rheini yn cyflwyno stori Sant Ffransis o Assisi a'r Santes Catherine o Alexandra.

Dylid ychwanegu nad dyma'r unig eglwys sydd â theils tebyg yn y ddinas ond hon o ddigon ydi'r un fwyaf trawiadol, a hynny oherwydd ei bod yng nghanol un o strydoedd siopa prysuraf y ddinas.

Fe wyddoch yn helaeth am Sant Ffransis mi wn, ond hwyrach bod y Santes Catherine yn ddieithr i chi.

Cliwiau felly:-
- bedyddiwyd Guto (mab Elin a Hywel) mewn oedfa ym Methlehem yn ddiweddar?
-Guto Ffowc yn ceisio llosgi'r Senedd yn Llundain.
--Tân Gwyllt ar Dachwedd y 5ed
-y "*Catherine Wheel*"

Ia, dyma'r Santes a aned yn 287 oed Crist ac a fu farw yn 305 oed Crist yn ferthyr yn 18 oed. Tyfodd i fyny yn bagan ond fe anwesodd Gristnogaeth yn ei harddegau. Mae'n debyg iddi gael gweledigaeth ei bod wedi ei chodi i'r nefoedd, gan gyfarfod yno â'r Iesu ifanc a'i fam, ei briodi, a chael tröedigaeth.

Wrth geisio dylanwadu ar yr Ymerawdwr Rhufeinig yn Alexandria i arddel Cristnogaeth, fe'i dedfrydwyd i farwolaeth trwy ei gosod ar olwyn fileinig. Ond fe dorrodd yn rhydd o'r olwyn ac fe'i dienyddwyd trwy dorri ei phen yn y diwedd. Yn lle gwaed fe lifodd llaeth o'i chorff. Cariwyd ei chorff gan angylion i ben y mynydd uchaf yn Sinai, sef y Jebel Katerina. Darganfuwyd ei chorff cyfan dair canrif yn ddiweddarach gan fynachod ac fe'i cludwyd i Fynachdy ym Mrasil lle gellir gweld peth o'i gweddillion o hyd.

Yn ogystal â'r tân gwyllt, mae'r Santes Catherine yn cael ei chydnabod fel nawdd sant myfyrwyr, athrawon, a hefyd y rheini sydd â chyswllt hefo olwynion fel rhan o'u gwaith.

Gwelais hyn fel enghraifft dda o beidio cadw ffydd ynghudd tu ôl i'r drws caeedig. Mae'n wers i ni i gyd i beidio gweld ein hunain yn dda am ein bod yn eistedd yn barchus tu fewn i'r adeilad o Sul i Sul heb na chyffwrdd na chrebwyll am yr hyn sy'n digwydd y tu allan.

Mae muriau allanol Capela de Santa Catarina yn gallu siarad â'i chwsmeriaid saith diwrnod yr wythnos am 52 wythnos y flwyddyn hefo'r hyder fod ganddi stori gwerth ei dweud.

Nid awgrymu yr ydwi y dylem, fel rhan o ddathliadau 150 y capel yma yn 2022, fod yn gofyn i Anthony Evans, yr artist, baratoi murluniau ar furiau'r capel – rhywbeth a fyddai yn achosi cryn benbleth i Alwyn Harding, y pensaer, mi wn, ond cynnig na ddylem osgoi dangos i bwy yr ydym yn perthyn fel unigolion a chymdeithas.

ooooOOOoooo

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.bethlehem.cymru

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter). Dilynwch ni ar @gwebethlehem.

# Cinio Cronfa Glyndŵr – a Chnoi Cil

Roedd llond ystafell wedi ymgynnull yng Nghlwb Golff Creigiau nos Sadwrn 14 Hydref i fwynhau Cinio a Darlith Cronfa Glyndŵr. Roedd y bwyd yn flasus a'r gweini yn ardderchog. Cafwyd cyfle yn ystod y noson i anrhegu Margaret Griffiths, cyn-drysorydd y Gronfa am flynyddoedd maith o wasanaeth diflino ar ran y Gronfa.

Y gŵr gwadd eleni oedd Dr Hefin Jones, yn wreiddiol o Bencader, Sir Gaerfyrddin ac wedi ei addysgu ym Mhrifysgol Llundain ond sydd bellach yn Uwch-ddarlithydd ym maes Ecoleg ym Mhrifysgol Caerdydd. Testun ei sgwrs oedd ei swydd yn Ddeon cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, testun oedd mor berthnasol a phwysig i'r gynulleidfa o garedigion addysg Gymraeg yn y sectorau meithrin, cynradd ac uwchradd a oedd yn bresennol. Ymfalchïai'r Dr Jones ei fod yn goruchwylio traethawd hir myfyriwr ymchwil gwyddonol a allai dystio'n gadarn ei fod yn sgil ei ymchwil 'yn cyflawni cymal olaf fy addysg ffurfiol, addysg yr wyf wedi cael y fraint o'i derbyn oll drwy'r Gymraeg'. Ond nid felly y bu pethau ar hyd y blynyddoedd, fel y dangosodd yn ei araith, oherwydd tan ryw bymtheng mlynedd yn ôl darniog a chwbl di -gynllun fu'r ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg ar lefel addysg uwch. Dyna arwyddocâd sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011 ac arweiniodd Dr Jones ni drwy'r datblygiadau diweddaraf yn y maes gan gynnwys y bwriad i ddod ag addysg bellach cyfrwng Cymraeg dan adain y Coleg yn y dyfodol agos. Yn sicr cafwyd digon i gnoi cil arno yn yr araith a gellir ei darllen yn llawn ar ein gwefan www.cronfaglyndwr.cymru

Fel y dwedodd i gloi ei araith: 'Rydym wedi teithio siwrnai dda eisoes ond, heb unrhyw amheuaeth, mae ffordd bell i'w throedio eto cyn cyrraedd y nod o addysg ysgolheigaidd o'r radd flaenaf yn ein mamiaith i holl fyfyrwyr Cymru.'

Roedd hon yn araith rymus ac amserol a diolchwyd i Dr Jones gan Hywel James ar ran yr ymddiriedolwyr a'r ciniawyr i gyd. Fel y dywedodd Wyn Rees, Ysgrifennydd y Gronfa 'Bu'n noson lwyddiannus iawn a chawsom gyfle nid yn unig i nodi pwysigrwydd ychwanegu at ein cronfa ond i egluro sut yr ydym yn dosbarthu ein grantiau yn ôl y gofyn.'

## Colofn Blasus ac Iachus
**gyda Eluned Davies Scott**

Pwy sydd wedi gweld Cydonia Oblonga? Efallai fod cwins mor anghyfarwydd i ni a'i enw Lladin. Heblaw am fersiwn addurnol o goeden debyg (y cwins Siapaniaidd) anaml iawn gwelir coeden cwins yn tyfu mewn gardd. Gyda gormodedd o afalau yn y perllannau eleni roeddwn yn gobeithio dod o hyd i gwins ond ofer oedd fy chwilota hyd yn oed yn y marchnadoedd ffermwyr lleol.

Cwins yw'r afalau auredig enwog o fytholeg a roddwyd gan Paris i Aphrodite ar ôl iddi ei demtio â llaw Helen o Troy ac mae rhai yn honni mae cwins, nid afal, oedd y ffrwyth gwaharddedig yng ngardd Eden. Yng ngherdd Edward Lear mae'r dylluan a'r gath yn gwledda ar dafelli o cwins ar ddydd eu priodas!

Yn y Groeg hynafol, roedd y cwins yn ffrwyth cariad, priodas a ffrwythlondeb, ac fe'i rhoddwyd fel anrheg priodas yn aml i'r briodferch i felysu ei anadl.

Gwnaeth y cwins ei ffordd i Loegr ym 1275 pan orchmynnodd Edward I y dylid plannu coed cwins yn Nhŵr Llundain. Wedi hynny, roedd yn gynhwysyn cyffredin mewn jams, jellies, crymbl a phasteiod ac fe'i gweiniwyd yn aml ochr yn ochr â chigoedd cyfoethog.

Mae cwins wedi'i ddefnyddio'n draddodiadol i wneud jam a jelïau am fod llawer o bectin yn y ffrwyth ac fe ddaw'r gair "marmalade" o'r "marmelada" Portiwgaleg, sy'n golygu "quince preserves". Hadau'r ffrwythau sy'n cynnwys y mwyafrif o'r pectin a defnyddiwyd y rhain hefyd i wneud y "hairsprays" cyntaf!

Nid yw'r ffrwyth yn edrych yn apelgar iawn. Mae'r cnawd yn rhy galed a chwerw ar gyfer ei fwyta'n amrwd, a gyda rhan fwyaf o gogyddion yn anghyfarwydd â'i ddefnydd does dim syndod ei bod wedi mynd allan o ffasiwn. Mae'r paratoi yn her hefyd, gan fod y croen a'r cnawd yn galed mae'n anodd ei bilio a'i dorri. Serch hynny, os allwch gael gafael ar rai, mae'n werth roi cynnig ar eu defnyddio. Pan fydd y ffrwyth yn aeddfed, mae ganddo bersawr hyfryd ac ar ôl ei goginio mae'r cnawd yn datblygu blas dyfnach ac yn troi'n binc.

Mae'n dda i'w ychwanegu mewn saws i fynd gyda hwyaden neu selsig cig carw a hefyd i'w weini gyda phorc wedi'i rostio a gyda chaws. Fe allwch brynu jeli cwins, mae ar gael mewn archfarchnadoedd ac ar stondinau mewn marchnadoedd ffermwyr. Ceir amrywiaeth o rysetiau ar wefan www.bbc.co.uk/food/quince

Gan fod y cwins braidd yn brin dyma rysáit sy'n gwneud defnydd o afalau. Mae'n rysáit i'w baratoi ar brynhawn gwlyb diflas pan nad oes gennych unrhyw beth arall i'w wneud (dyna sut i mi fynd ati i roi cais arno!), mae'r canlyniad yn werth yr ymdrech. Mae'r rysáit yn dod o lyfr coginio Jose Pizarro. Cogydd o Sbaen yw Jose sy'n hoff iawn o fwydydd Catalonia gyda'r croquettas hyn yn ffefryn mawr yn ei dai bwyta yn Llundain.

Llun tudalen 13

***Croquettas pwdin gwaed ac afal***

500ml llaeth cyflawn
150g stoc llysiau
85g menyn
120g blawd plaen
75g caws Manchego wedi'i gratio'n fân
150g morcilla / pwdin gwaed wedi ei dorri'n ddarnau bach
1 afal wedi ei dorri'n fân
Pinsiad o siwgr
1-2 wy
150g briwsion bara sych (Panko yw'r rhai gorau)
Olew blodyn haul

Cynhesu'r llaeth a'r stoc llysiau gyda'i gilydd

Toddi'r menyn mewn sosban, ychwanegu'r blawd a'i goginio am tua 2-3 munud hyd nes yn cychwyn troi'n frown

Ychwanegu'r llaeth tipyn ar y tro gan gymysgu'n dda – bydd hyn yn gwneud saws bechamel

Ychwanegu sesning a'r caws a'i gymysgu hyd nes mae'r caws wedi toddi

Ffrio'r morcilla/ pwdin gwaed mewn ychydig o olew am ychydig funudau yna ei roi ar bapur cegin cyn rhoi'r afal yn y badell gyda phinsiad o siwgr a thamaid o fenyn yna gadael iddo frownio.

Ychwanegu'r morcilla a'r afal i'r saws bechamel yna rhoi'r cymysgedd mewn tun bas a'i ledaenu yn llyfn.

Rhoi haenen lynu drosto a'i adael yn yr oergell am o leiaf 2 awr.

Rhannu'r cymysgedd yn ddarnau cyfartal a'u rholio'n beli bach (mae rhoi olew ar eich dwylo yn help)

Curo'r wy ar ddysgl fas a rhoi'r briwsion ar ddysgl arall a'u defnyddio i orchuddio'r croquettas. Dyma pryd gallwch eu rhewi neu eu gadael yn yr oergell nes eich bod yn barod i'w coginio.

Ffrio'r croquettas mewn olew poeth am tua 2 funud a'u gweini yn syth.(Gwnewch yn siŵr fod yr olew yn boeth iawn er mwyn cael yr ansawdd cywir - bydd y llenwad yn feddal a llyfn felly mae angen i'r tu allan fod yn greisionllyd)

Gallwch arbrofi gyda'r llenwad – mae ychydig o ddail mintys wedi'u malu yn ychwanegiad da.

**Ysgol Gyfun Garth Olwg**
**Anturiaethau gwyddonol ar y Môr Du!**

Ers 2015 mae Black Sea MAP, un o'r prosiectau archaeoleg arforol fwyaf erioed i'w sefydlu, wedi bod yn archwilio'r newidiadau i amgylchedd hynafol rhanbarth y Môr Du, gan gynnwys effaith newid lefel môr yn ystod cylchred y rhewlif diwethaf. Ar y 25ain o Awst 2017 hwyliodd tîm o wyddonwyr arforol a morol o borthladd ym Mwlgaria, Burgas, i gyflawni cam olaf y prosiect ar y R/V Havila Subsea. Darparodd MMT/Reach yr adnoddau i wneud mesuriadau morol arbenigol a mesuriadau technolegol, gan dorri recordiau byd eang, wrth archwilio dyfnderoedd y Môr Du. Cefais i, a 14 person ifanc arall, gyfle euraidd i ymuno â'r llong a chael cymryd rhan yn elfen addysgiadol y Black Sea MAP. Roedd yr agwedd yma o'r prosiect wedi'i gynllunio i roi cyfle i ddysgu am gymhwysiad pynciau STEM, ac i gyflwyno gyrfaoedd yn y meysydd arbenigol yma.

Gan Nyasha Thomas Blwyddyn 13

## Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Nos Lun 16eg o Hydref cawsom ni gyflwyniad hynod ddiddorol gan Dr Ben Screen o Adran Gymraeg Prifysgol Caerdydd. Pwnc Ben oedd 'Cyfieithu Awtomatig a Chyfieithu Proffesiynol, Gelynion ynteu Cyfeillion'. Felly er i ni grwydro i faes technoleg, roedd yna ddull gwyddonol y tu ôl i'r gwaith. Roedd yn bleser hefyd croesawu nifer o aelodau Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru i'n plith oedd wedi dod i wrando ar ddarlith Ben.

Dadleuodd Ben bod defnyddio peiriant cyfieithu, er enghraifft meddalwedd 'google translate', i wneud y drafft cyntaf o gyfieithiad, ac yna golygu'r drafft hwnnw yn esgor ar gyfieithiadau cystal â chynnyrch cyfieithydd proffesiynol ond yn llawer cyflymach. Mae unrhyw un sydd wedi chwarae gyda meddalwedd o'r fath yn gwybod nad yw safon y cyfieithiad awtomatig yn dderbyniol oni bai am yr achosion mwyaf syml. Mae hyn yn wir am bob meddalwedd cyfieithu sydd ar gael ar hyn o bryd, mae angen siaradwr rhugl i olygu beth sy'n dod o'r peiriant.

Nododd Ben pa mor anodd yw mesur safon cyfieithiad, ond bod rhai egwyddorion sylfaenol yn bwysig. Ni ddylid bod yn llythrennol gan mai cyfleu'r ystyr sy'n bwysig a chanllaw yn unig ddylai'r iaith wreiddiol fod. Disgrifiodd set o arbrofion lle'r oedd cyfieithwyr proffesiynol yn cyfieithu cyfres o ddarnau o destun heb ddefnyddio peiriant, a grŵp arall o gyfieithwyr yn golygu drafft a gynhyrchwyd gan beiriant cyfieithu a grŵp arall o gyfieithwyr yn gwneud asesiad o safon y gwaith cyfieithu heb wybod pwy oedd wedi ei gynhyrchu.

Yn ogystal ag asesiad cyfieithwyr proffesiynol defnyddiodd Ben declyn i gofnodi gwasgiadau ar allweddfwrdd cyfrifiadur i weld os oedd y golygwyr yn gwneud llai o deipio. Hefyd disgrifiodd ddefnydd technoleg sy'n dilyn symudiadau'r llygaid i helpu gyda'r asesiad. Mae testun lle mae'r llygad yn symud yn gyflym o air i air yn amlwg yn well na thestun lle mae teclyn yn dangos bod y darllenydd yn mynd nôl i ail ddarllen brawddegau dro ar ôl tro.

Felly beth oedd canlyniad yr ymchwil? Mae defnyddio peiriant i gynhyrchu drafft cyntaf o gyfieithiad cyn ei olygu yn cynhyrchu testun sydd o'r un safon a chyfieithydd proffesiynol sy'n dechrau gyda thudalen wag. Yn ogystal, mae defnyddio peiriant yn lleihau'r gwaith, yr ymdrech, ac yn bwysig, yr amser mae cyfieithu yn ei gymryd. Gall hyn fod yn gyflymiad sylweddol weithiau yn dair gwaith yn gyflymach gan ddibynnu ar y testun wrth gwrs. I ateb y cwestiwn rhoddwyd yn y teitl, ydy, mae cyfieithu awtomatig yn gyfaill i'r cyfieithydd proffesiynol.

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

**Bore Coffi MacMillan**
Trefnodd Menna a Sian Bassett fore coffi Macmillan ym Mhentir Hir ddiwedd Medi a llwyddwyd i godi dros £460 at yr achos da hwn.

**Cartref Newydd**
Dymunwn bob hapusrwydd yn eu cartref newydd i Zoe ac Andrew Western a'r plant Harry a Theo wedi iddynt symud o Faes y Sarn i Fro Deg.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn yn ddwys gydag Emlyn ac Ann Davies a'r teulu wedi marwolaeth Erinwen, chwaer Emlyn yn ysbyty Glan Clwyd, Bodwyleddan ar Hydref 7fed yn 81 mlwydd oed.

**Clwb y Dwrlyn**
Cafodd aelodau Clwb y Dwrlyn eu swyno a'u difyrru gan Bryn Fôn ar Hydref y 12fed wrth iddo gynnig ei hun i gael ei holi gan Huw Llywelyn Davies, y trydydd un i wneud hynny (yn dilyn Beti George a Dafydd Iwan), yn y gyfres hynod o boblogaidd "Huw yn Holi".
Bu i'r "hogyn o Lanllyfni" ein tywys ar rannau o'i siwrna na ddychmygodd neb erioed amdanynt er mawr fwynhad y dorf a lenwai Glwb Rygbi Pentyrch hyd at yr ymylon.

Roedd 'na chwerthin heintus wrth iddo olrhain troeon trwstan ei ddyddiau coleg, hanes ei wyliau yn y Dwyrain Pell, a hanes ei yrfa ym myd actio a chanu.
Yn naturiol, o gofio ei hanes fel Tecwyn y golgeidwad yn "C'mon Midffild" nid oedd byd chwaraeon yn ddieithr iddo, boed hynny yn bêl-droed, rygbi, golff neu redeg y ras filltir (a hynny mewn rhyw gwta 4 munud a hanner pan yn ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Nantlle).

Datgelodd ei fod wedi chwarae rygbi "rhyngwladol" ac wedi wynebu neb llai na'r Crysau Duon mewn cystadleuaeth 10-bob-ochr (y "COBRA 10s" ym Malaysia), hynny tra ar ymweliad a'i chwaer Liz, pan oedd hi'n gweithio yn Hong Kong.

Ac roedd ei gyfeillgarwch honedig ag un a alwai'n "maggot" yn dilyn y daith yma yn ddiarhebol. (Tybed a'i Tengku Mahkota, Tywysog Coronog Malaysia, oedd y gŵr dan sylw?)

Dywedodd nad oedd cell yr heddlu yn lle dieithr iddo - fe wyddom am ei wahoddiad i swyddfa'r heddlu yn Nolgellau yn ystod ymgyrch Meibion Glyndŵr, ond datgelodd yn ogystal ei fod wedi ei gaethiwo yn Malaysia am gyfarch y wlad hefo'i ben-ôl oddi ar risiau'r awyren!

Ac 'roedd stori'r lleianod cegrwth ar Ynys Môn yn gweld y noethlymunwr a'r afr yn gynnar rhyw fore yn "hilariws" fel y byddai John Bwlchllan yn ei yngan.

A do fe gafwyd cân neu ddwy hefyd i'n hatgoffa am ei hirhoedledd fel un o brif artistiaid y sin roc yng Nghymru dros y degawdau.

Hefo'i "*abacus*" yn ei law cychwynnodd ei daith yn ôl i Ddyffryn Nantlle gan adael pawb i "*gyfrif ein bendithion*" ein bod wedi cael cwmni ffraeth a doniol un o'n goreuon yng Nghlwb y Dwrlyn unwaith yn rhagor.

## Apêl Pentyrch a Creigiau, Eisteddfod Caerdydd 2018

**Noson o Adloniant**
Roedd neuadd Ysgol Creigiau dan ei sang ar gyfer noson hwyliog i godi arian at Eisteddfod Caerdydd. Bu Cantorion Creigiau yn ein diddannu yn ogystal â Chôr plant Ysgol Creigiau gyda help cyn aeodau'r côr sydd bellach ym mlwyddyn 7 yn Ysgol Plasmawr. Triawd ffliwt gafwyd gan Eiry, Angharad a Sian, unawd clarinet gyda Angharad Ellis ac unawd cornet gyda Iestyn Ellis. Diolch hefyd i Claire a Ray am ddatganiad Jazz. Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gefnogi gan lwyddo i godi dros £600 tuag at yr Apêl.

**DIGWYDDIAD ARBENNIG**
Noswaith Nadoligaidd gyda'r PARRY ISAACS, Acapela Pentyrch, Nos Sadwrn, 2il o Ragfyr am 8yh
Tocynnau £10 y pen gan aelod o Bwyllgor Apêl Pentyrch a Creigiau, neu drwy Acapela (02920 890862 / acapela.co.uk)

Ers rhyw bum mlynedd bellach mae hi wedi bod yn draddodiad i deulu'r Parry Isaacs gynnal cyngherddau Nadolig i godi arian at wahanol elusennau lleol. Mae'n bleser pur cael ymddangos yn Acapela i baratoi pawb ar gyfer y mis prysur sy'n arwain at y 25ain o Ragfyr. Mae Myfyr Isaac a Caryl Parry Jones yn adnabyddus fel cerddorion yng Nghymru a thu hwnt ers rhai blynyddoedd ac mae'r plant hefyd yn dilyn ôl eu traed, gyda Greta (yr ieuenga') yn dilyn gyrfa fel cantores/ cyfansoddwraig, Moc yn astudio Cerddoriaeth Boblogaidd ym Mhrifysgol De Cymru, Miriam yn gantores sesiwn ac unawdydd ac Elan a Miriam sy'n canu lleisiau cefndir i Greta! Mae Non Parry, sy'n adnabyddus fel prif leisydd y grŵp Eden, yn gyfnither lawn i Caryl a hi a Caryl sy'n rhoi y Parry yn y Parry Isaacs!

Ac fel rhan o'r teulu cerddorol estynedig fel petai, mae Geraint Cynan yn cyfeillio a Steffan Rhys Williams yn gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu clywed.

Mi fydd y noson yn llawn o ganeuon Nadoligaidd hen a newydd, Cymraeg a Saesneg a gobeithio y gwnewch chi fwynhau noson fydd yn gosod y naws tymohorol, cynnes rydyn ni'n ei gysylltu â'r Nadolig.

Gwnewch noson ohoni drwy archebu bwrdd cyn y sioe ar gyfer pizzas arbennig o bopty coed tan arbennig Acapela, ynghyd a lluniaeth Nadoligaidd.

**Cyfamodi – dull hawdd o gyfrannu**
Diolch yn fawr iawn i'r rheiny ohonoch sydd wedi gwneud cyfraniadau hael at yr ymgyrch eisoes, rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn.
Os hoffai unrhywun wneud cyfraniad at yr Apêl yn uniongyrchol, boed hynny drwy daliad unigol neu fisol, yn fawr neu'n fach, os gwelwch yn dda a wnewch chi gysylltu gyda'r Trysorydd, Iwan Griffith ar iwanbethan@btinternet.com / 07900 408 513 / Ty Canol, Heol y Parc, Pentyrch, CF15 9NB.

**Trydar a Gweplyfr!**
Gall y rheiny ohonoch sydd ym myd y cyfryngau cymdeithasol gael mwy o wybodaeth am y digwyddiadau, cynnig syniadau ar gyfer digwyddiadau i ddod, neu unrhyw ddull arall o godi arian drwy ein dilyn ar y canlynol. Ymunwch / Dilynwch!
Twitter - @ApelPC2018
Facebook - Pwyllgor Apel Pentyrch a Creigiau Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018

## ARHOLIADAU GORSEDD Y BEIRDD

Annwyl ddarllenwyr
Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Gaerdydd y flwyddyn nesaf, beth am fynd ati dros fisoedd y gaeaf i baratoi ar gyfer sefyll arholiadau'r Orsedd, a thrwy hynny ddod yn aelod o'r Orsedd a chymryd rhan yn ei seremonïau a'i gorymdeithiau lliwgar?

Cynhelir yr arholiadau ar y Sadwrn olaf yn Ebrill a gallwch ddewis o blith nifer o feysydd i arbenigo ynddynt: Barddoniaeth, Cerddoriaeth, Iaith, a Rhyddiaith, ynghyd â meysydd arbennig i Delynorion, Datgeiniaid Cerdd Dant, ac Utganwyr.

Os hoffech fwy o fanylion am yr arholiadau a'r gwahanol feysydd astudio, cysylltwch â mi cyn gynted â phosib yn: Llys Cerdd, 80 Cae Gwyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1LL (*e-bost:* wgwyn.lewis@btinternet.com), ac fe anfonaf gopi o lyfryn y *Maes Astudiaeth* newydd ar gyfer 2018-19-20 atoch.

Beth am roi cynnig arni, felly, er mwyn i chi gael bod yn rhan o seremonïau Gorsedd y Beirdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mae Caerdydd y flwyddyn nesaf?

Yr eiddoch yn gywir
Dr W Gwyn Lewis (Gwyn o Arfon)
Trefnydd Arholiadau Gorsedd y Beirdd

# tafod elái


***GOLYGYDD***
***Penri Williams***
***029 20890040***

***HYSBYSEBION***
***David Knight 029 20891353***

***CYHOEDDUSRWYDD***
***Colin Williams***
***029 20890979***

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Rhagfyr
i gyrraedd erbyn
24 Tachwedd 2017

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafelai.com**

***Argraffwyr:***
***Copyprint Wales***
**Trefforest**
**www.copyprintwales.co.uk**


CYMRAEG

***Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***


**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**

**MERCHED Y WAWR**
**Cangen y Garth**

## CYLCH CADWGAN

**Vaughan Roderick -**
Yn siarad ar y testun
'William Williams, Pantycelyn'

**yn Y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf**
**Nos Fercher**
**15 Tachwedd 2017**
**am 8.00yh**

**MERCHED Y WAWR**
**Pontypridd**

**Yvonne Evans -**
**Y Tywydd a Fi**

**7.30yh Tachwedd 9fed**
Yn Festri Capel Sardis

Rhagor o fanylion:
01443 485272

**MERCHED Y WAWR**
**Tonysguboriau**

**Tachwedd 15fed**

**'Cenhadon o Gymru a Madagascar' Elenid Jones**

Rhagor o fanylion:
01443 223828

**Nadolig yng nghwmni**
**3 Tenor, Athena a Côrdydd**
Capel Salem, Treganna
Nos Iau 14eg Rhagfyr
Tocynnau £12 oedolion:
£6 plant
cordydd1@gmail.com

**Cyngerdd Nadolig**
**Côr y Gleision**
16 Rhagfyr yn y Tabernacl,
Yr Ais, Caerdydd.
'Teilwng Yw'r Oen' gyda'r Welsh Session Orchestra, Non Parry (Eden) a Luke McCall (Phantom of the Opera)
Hanner yr elw tuag at Eisteddfod Genedlaethol 2018.

## CLWB Y DWRLYN

**Brethyn Cartref**

**8yh Nos Iau 16 Tachwedd**
Clwb Rygbi Pentyrch

Manylion: 029 20890040

## TAITH I RUFAIN




Mae Gwasg y Dref Wen newydd gyhoeddi *Taith i Rufain*, pumed llyfr taith Dr Roger Boore.

Disgrifia'r llyfr ymweliad gwanwynol â Rhufain, a'r awdur a'i wraig yn crwydro i fyny ac i lawr y bryniau chwedlonol, o goridorau cain y Vatican i balasau adfeiliog y Palatin …

Ceir yma llond gwlad o hanesion difyr, am y daith ei hun ac am y gorffennol pell ac agos … y Celtiaid cynnar a orchfygodd Rufain (a'i cholli) … y Brython cyntefig a lofruddiodd ddarpar-Ymherodr … ailddarganfod y Laocoön … ailddiladu Aphrodite … Pabau call, gwirion ac ymladdgar … Ymerodron da, drwg, a thrychinebus …

Mae llyfrau taith arloesol Roger Boore yn unigryw yn y Gymraeg.

Pris y gyfrol yw £7.99 ac mae ar gael oddi wrth bob llyfrwerthwr Cymraeg neu'r cyhoeddwr.

Mae Roger Boore yn byw yng Nghaerdydd, ei dref enedigol, er bod ganddo wreiddiau ym Mro Morgannwg a Gorllewin Cymru. Sefydlodd Wasg y Dref Wen gyda'i wraig Anne. Mae'n aelod o'r Orsedd, yn enillydd Tlws Mary Vaughan Jones, ac yn PhD mewn Hanes o Brifysgol Cymru Abertawe.

**Bore Coffi i'r dysgwyr**
**yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob dydd Gwener am 11 y bore.**
**Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.**

## Cylch Llyfryddol Caerdydd

***Gwener, 17 Tachwedd 2017***
**Cyflwyniad gan y**
**Prif Lenor Mihangel Morgan**
**i'w gyfrol ddiweddar, *60*, ac i waith newydd sydd ar y gweill ganddo.**

Cynhelir y cyfarfodydd am 7.00 o'r gloch yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU.

# LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

**Bore Coffi Mawr Macmillan**
Braf oedd cael cwmni Prif Weithredwr newydd elusen Macmillan yn ein bore coffi yng Nghlwb Athletau Pontyclun. Mae Lynda Thomas yn gyn ddisgybl o Ysgol Llanhari ac yn awyddys iawn fod yr elusen yn cefnogi'r iaith yng Nghymru. Cawsom gefnogaeth dda eto eleni gyda amrywiaeth o stondinau a therapyddion yon yn ogystal a llwyth o gacennau. Daeth criw da i gefnogi y bore coffi gyda chyfanswm o dros £1,730 yn cael ei godi. Diolch i pawb am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth.
www.macpontyclun.co.uk/425486044

**Siop Ffasiynau**
Cynhaliwyd sioe ffasiynau yn Neuadd Dowlais ar 23ain o Fedi. Perchennog siop ddillad Missy yn Tonysguboriau drefnodd y noson ac roedd cynulleidfa dda yno i weld y dillad ffasiynol wrth fwynhau glasiaid o wîn neu sydd oren. Gwnaed elw o £834. Mae'n gyfnod prysur i Grŵp Codi Arian Pontyclun a'r Ardal ac fe fyddwn wrthi eto yn cynal rhagor o wethgareddau cyn y Nadolig gan anelu at godi dros £100,000 yn lleol ar gyfer Macmillan cyn diwedd y flwyddyn ers i ni gael ein sefydlu yn 2013.

Mae aelwyd yr Urdd Tonysguboriau wedi ail-ddechrau y tymor hwn. Mae'r criw o flynyddoedd 7, 8 a 9 yn cwrdd bod nos Fercher rhwng 5:30yh a 6:30yh am sesiynau o hwyl amrywiol. Byddent yn falch iawn o weld mwy yn dod. Mae nifer o blant yr ardal hefyd wedi cychwyn mynychu'r clwb drama newydd yng Ngartholwg ar nosweithiau Iau. Eto mae croeso mawr i fwy ymuno yn yr hwyl.

Bu Côr Tadau Trisant yn brysur yn ystod y mis. Ganol Medi buon nhw'n perfformio mewn noson godi arian i'r NSPCC yng Nghaerdydd gyda Stifyn Parry. Ac ym mis Hydref buon nhw'n canu yn Llanilltud Faerdref ar gyfer elusen lleol 'Wish Upon a Star'. Daeth côr gwerin o Gernyw draw ar gyfer yr achlysur, yn ogystal â dau o gorau lleol arall.

Yn sgil ei gwaith cafodd Lowri Roberts deithio i gyrion pellaf Ewrop ar gyfer gêm bêl-droed Cymru a Georgia. Dinas fawr a phrysur, gyda thraffig oedd braidd yn ddi-reol yw Tbilisi yn ôl Lowri. Ond gwlad hardd a mynyddig, a braf cael y profiad o fod yno yng nghanol bwrlwm gêm ryngwladol.

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

**01443 407570**
**www.menteriaith.cymru**

Mae Gwyndaf Lewis a chriw y Fenter wedi cael cynnig slot ar GTFM pob nos Sul rhwng 20:00-22:00.

Mae cyfle i chi greu hysbyseb cyffredinol ar gyfer eich cwmni/busnes/elusen.

Os oes yna ddigwyddiad gyda chi yn Rhondda Cynon Taf ac am ei hysbysebu cysylltwch cyn 15:00 y dydd llun cynt gan fod y rhaglen yn cael ei recordio.

Bydd grŵp ar Facebook ar ôl Hanner Tymor lle os bydd digwyddiadau Cymraeg/ Cymreig yn digwydd yn yr ardal, allwch chi rhoi'r wybodaeth ar y dudalen yna. Bydd yn grŵp "Digwyddiadau Cymraeg"

Cofiwch hyrwyddo'r Sesiwn Sul pob nos Sul rhwng 20:00-22:00 ar GTFM 107.9FM. Neu allwch chi wrando ar-lein.

Gwyndaf Lewis
Swyddog Ieuenctid Hŷn
Menter Rhondda Cynon Taf

## Parti Nadolig Treorci Diwrnod i'r teulu

Dydd Sul, 3ydd o Ragfyr
1-5yp
The Lion Treorci, Stryd Bute
Groto Sion Corn Cymraeg £6
(Anrheg a ffotograff i bob plentyn)
Gweithgareddau celf a chrefft Nadolig
Perfformiadau ysgolion
Marchnad Nadolig BBQ Nadolig
Gweini bwyd trwy'r dydd. Plant o dan 12 yn bwyta am ddim o'r fwydlen.
(1 plentyn am ddim i bob oedolyn )
Croeso mawr i bawb!

## Cyfarfod Blynyddol

Menter Iaith
Rhondda Cynon Taf
7.0yh 15 Tachwedd
Theatr Parc a Dar
Treorci

## Datblygu Gêm

Mae Menter Iaith wedi llwyddo ennill grant Cymraeg Llywodraeth Cymru oedd yn gofyn am arloesedd ac elfen dechnolegol gref. Bydd y grant o £19,000 ar gyfer datblygu gêm gyfrifiadurol gyda chwmni Webfibre o Lantrisant. Mae'n rhaid cwblhau'r gwaith erbyn diwedd Mawrth felly mae'r gwaith yn dechrau nawr!

Bydd y gêm ar ffurf 'gêm antur episodig'. Trwy ddatrys heriau cymdeithasol, trwy gwestiynau, posau a phenderfyniadau, bydd yn rhoi darlun bywyd person ifanc sy'n arwain pob dewis i ddeddfu'r 'effaith glöyn byw' - a beth mae hyn yn ei olygu i'w rhyngweithio personol â'r iaith Gymraeg.

## Byddwch wych; byddwch wlanog!

Bydd y wlad yn troi'n wlanog unwaith eto y Nadolig hwn wrth i blant ac oedolion mewn ysgolion, cartrefi a swyddfeydd wisgo eu siwmperi gwirionaf ar gyfer Diwrnod Siwmper Nadolig Achub y Plant ddydd Gwener, 15fed o Ragfyr.

Nod Diwrnod Siwmper Nadolig yw codi arian ar gyfer cefnogi gwaith yr elusen yn rhyngwladol a hefyd yma yng Nghymru. Gofynnir i bawb wisgo siwmper liwgar a chyfrannu £2 (£1 os mewn ysgol) gyda'r holl arian a gesglir yn mynd tuag at helpu plant mwyaf bregus y byd; boed hynny'r rhai sy'n byw mewn gwersylloedd i ffoaduriaid neu ardaloedd rhyfelgar, yn dioddef o newyn neu drychineb naturiol, neu'n profi effeithiau tlodi yma yng Nghymru.

Ers lansio Diwrnod Siwmper Nadolig yn 2012 mae wedi codi swm o £13.5 miliwn, a'r llynedd fe godwyd y swm aruthrol o £4 miliwn o bunnoedd. O jyrsis sy'n janglo i siwmperi sy'n goleuo a disgleirio, eleni mae Achub y Plant yn gobeithio y bydd 5 miliwn o bobl yn cymryd rhan a byddai'n braf petai trigolion yr ardal yn ymuno yn yr hwyl at achos teilwng iawn.

- Gallai £1 brynu tabled puro i gyflenwi teulu gyda dŵr yfed glân
- Gallai £2 brynu pâr o esgidiau gaeaf i blentyn yn Afghanistan
- Gallai £400 brynu dŵr potel a blancedi thermal i 50 o blant

Pecyn Codi arian Cymraeg ar gael i ysgolion a'r cyhoedd

Gellir cofrestru ar www.christmasjumperday.org, a cewch e-bost fydd yn mynd a chi at dudalen lle gellir dewis fersiwn Gymraeg o'r pecyn codi arian yn ogystal â phosteri i'w llawrlwytho. Mae'r pecyn yn llawn syniadau ar gyfer gweithgareddau creadigol a dwl i sicrhau y bydd eich Diwrnod Siwmper Nadolig yn llwyddiant.

TARW DU

**CYSTADLEUAETH!**
**CYFLE I ENNILL CD NEWYDD**
**Y Welsh Whisperer!**
Am gyfle i ennill copi o'r CD newydd sbon gan y 'Mansel Davies Man' ei hun
'**Dyn y Diesel Coch**'
atebwch y cwestiwn anodd yma;

**Pa liw ydy diesel coch?**

Atebion at welshwhisperer@live.com
neu: (Swyddfa'r Gogledd)
4 Pantglas, Bethesda, Bangor, Gwynedd, Cymru, LL57 3BG
(Cofiwch gynnwys eich cyfeiriad a'ch papur bro).

**www.welshwhisperer.cymru**

# Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

**Cerdyn Coch i Hiliaeth**
Gwisgodd disgyblion yr ysgol ddillad coch ar Hydref yr ugeinfed i godi ymwybyddiaeth yn y frwydr yn erbyn hiliaeth.

**Hyfforddiant i'r Arweinwyr Digidol**
Diolch yn fawr iawn i Tom Lewis o gwmni Halo Support a ddaeth i hyfforddi'r Arweinwyr Digidol ar Hydref y pedwerydd ar hugain. Awyddus iawn i ddatblygu oedd y disgyblion a dysgwyd sawl sgil newydd yn hyderus ac yn ddidrafferth.

**Mei Gwynedd a Chân Dathlu Menter Iaith Rhondda Cynon Taf**
Gwelwyd llawer o gyffro yn yr ysgol brynhawn Gwener Hydref yr ugeinfed wrth i Mei Gwynedd ddod i recordio cân arbennig iawn. Mae Menter Iaith Rhondda Cynon Taf yn dathlu pen blwydd yn bump ar hugain oed a chomisiynwyd Mei i ysgrifennu cân gyda disgyblion uwchradd yr ardal i ddathlu'r achlysur. Cafodd Mei a'i frwdfrydedd gryn effaith ar y disgyblion a mwynheuon nhw ganu a recordio yn ei gwmni. Diolch Mei a phen blwydd hapus i'r Fenter.

**Coginio Cyffrous**
Archfarchnad yw thema'r Cyfnod Sylfaen y tymor hwn a gwelwyd dwy fan ddosbarthu Tesco yn cyrraedd iard yr ysgol yn yr wythnos cyn gwyliau Hanner Tymor er mwyn i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau coginio. Paratôdd Dosbarthiadau Jac Do a Gwenllian becyn bwyd iach. Cawl pwmpen oedd y rysáit a goginiodd Dosbarth Dewi Sant. Uchafbwynt y cyfan wrth gwrs oedd cael blasu ar ôl y llafur caled.

**Ymweliad Seren a Sbarc**
Gyda'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd hybu Cymreictod trwy'r Siartr Iaith, braf oedd cael cwrdd â Seren a Sbarc o'r diwedd yng nghanol Hydref. Dau gymeriad hoffus a charedig i'r disgyblion oeddent ac mi fydd neges a symbyliad y ddau yn ffocws pwysig i Bwyllgor Siarter Iaith yr ysgol dros y misoedd i ddod.

**Pencampwyr Pêl-rwyd yr Urdd ym Morgannwg Ganol**
Ddydd Iau Hydref y chweched ar hugain chwaraeodd y tîm pêl-rwyd yng Nghanolfan Hamdden Rhondda Fach. Cystadlon nhw'n frwd trwy'r dydd gan ennill pedair gêm cyn cyrraedd y gêm gynderfynol yn erbyn Ysgol Garth Olwg. Gêm gystadleuol ac agos oedd hi ond buddugol oedd y merched o 6-3. Ysgol Maes y Coed oedd y gwrthwynebwyr yn y rownd derfynol a doedd dim modd dechrau'r gêm yn waeth gan fynd dwy gôl i ddim ar ei hôl hi. Aeth y ffidil ddim i'r to a daeth y merched yn ôl i fod yn fuddugol o 4-3. Llongyfarchiadau!

**Cystadleuaeth Saith bob ochr Ysgolion Pontypridd**
I Heol Sardis aeth y bechgyn i chwarae tra bod y merched yn brwydro i'r brig yn y Rhondda ar Hydref y chweched ar hugain. Maeddodd y bechgyn Dolau o drwch blewyn yn y gêm gyntaf. Perfformiadau cryf fel tîm a welwyd ar y ffordd i'r gêm gynderfynol gyda thrafod pert ac amddiffyn cadarn. Llwyddwyd i drechu Gwaun Celyn yn y gêm honno cyn wynebu Dolau unwaith eto yn y rownd derfynol. Gwaith amddiffyn ymosodol oedd y sail yn y pendraw i'r fuddugoliaeth o 21-0. Da iawn wir!

# Ysgol Dolau (Lluniau tudalen 13)

**Arweinwyr Digidol**
Bu ein Arweinwyr Digidol mewn cwrs hyfforddi yn iTeach, Caerdydd yn ddiweddar. Gweithion nhw gydag ysgolion eraill a phenderfynon nhw beth fyddai'n addas ei gynnwys mewn e-Brosbectws. Eu tasg nhw nawr yw creu e-Brosbectws i'n hysgol.

**Rygbi**
Cafodd tîm rygbi'r ysgol brynhawn hyfryd yn chwarae mewn twrnameint rygbi yn Heol Sardis. Chwaraeodd y tîm rygbi ymosodol gwych a chafwyd perfformiadau disglair iawn gan Daniel, Louis a Jesse.

**Llangrannog**
Yn ystod wythnosau cyntaf mis Medi, bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn ddigon ffodus i fynd ar daith i Langrannog. Roedd y daith yn gyfle gwych iddynt gymysgu gyda phlant eraill yr ardal ac i herio'i hunain i wneud pethau cyfarwydd â phethau ychydig yn llai cyfarwydd. Cafodd y disgyblion benwythnos a hanner, ond roedd rhai llygaid blinedig yn yr ysgol fore dydd Llun … yn enwedig yr athrawon!

**Bore Coffi Macmillan**
Ddydd Gwener yr 29ain o Fedi, cynhaliodd Ysgol Dolau fore coffi i godi arian i'r elusen Macmillan. Mae'r elusen yn codi arian i gefnogi unigolion a'u teuluoedd sy'n byw gyda chanser. Roedd y staff wedi bod yn brysur yn coginio cacennau blasus ar gyfer yr achlysur. Codwyd £278 ar y diwrnod ac roedd pawb wedi mwynhau sgwrs a chacen! Diolch i bawb a gefnogodd y bore coffi.

**Y Fenter yn Dathlu!**
Eleni, mae'r Fenter Iaith yn Rhondda Cynon Taf yn dathlu ei phen-blwydd yn 25 mlwydd oed! Fel rhan o'r dathliadau, mae Mei Gwynedd yn teithio o amgylch ysgolion y sir yn dysgu cân wreiddiol i'r plant ac yn eu recordio. Bu Mei yn Dolau ar ddydd Mawrth, Hydref 10fed a chafodd y disgyblion lawer o hwyl yn ei gwmni.

**Ymweliad â'r Bathdy Brenhinol**
Ym mis Medi, cafodd criw o ddisgyblion wahoddiad gan Newsround a Plant Mewn Angen i ymweld â'r Bathdy Brenhinol. Aeth Rebecca, Robyn, Alfie, Finlay, Taliah a Mali a chawson nhw'r fraint o gwrdd â Pudsey a chael cyfweliad ar gyfer Newsround. Siaradon nhw am y darn punt newydd a'n digwyddiad Plant Mewn Angen ar gyfer eleni. Mae'r cyngor ysgol yn gofyn i bobl roi eu hen bunnoedd i'r ysgol er mwyn i ni drosglwyddo'r arian i'r Apêl CIN eleni. Cafodd y plant amser gwych gyda Pudsey yn dysgu ffeithiau anhygoel am y Bathdy Brenhinol. Edrychwch allan amdanynt ar Newsround!

# Ysgol Evan James

**Siarter Iaith**
Daeth Ani Llŷn a Tudur i helpu lansio'r siarter iaith yn yr ysgol. Cafwyd diwrnod hwyl a sbri yn clocsio, barddoni, gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg a bwyta picau gyda rhieni ar ôl ysgol.

**Trip Dosbarth Pwyll a Rhiannon**
Aeth Bl.6 ar wibdaith i @Bristol er mwyn ymchwilio a darganfod gwybodaeth am gysawd yr haul.

**Trip Dosbarth Culhwch ac Olwen**
Cafwyd hwyl a sbri yn y bathdy brenhinol wrth ddysgu am arian. Yn anffodus, doedd dim modd dod â'r arian nol â ni i'r ysgol.

**Dosbarth Tom Jones**
Er mwyn dysgu mwy a dathlu gwaith y tymor gwisgodd plant ac athrawon y dosbarth fel môr-ladron.

Croeso mawr i Miss Nolan sydd yn fyfyrwraig TAR ym Mlwyddyn 5 dosbarth Blodeuwedd.

Mae'r ysgol yn cynnig sesiwn stori a chân pob bore dydd Iau yn ein hystafell gymunedol newydd. Mae'r sesiynau yn llawn hwyl ac yn boblogaidd iawn.

Blwyddyn 2 wedi bod yn derbyn hyfforddiant pêl-droed gan Ddinas Caerdydd. Digon o bêl-droedwyr dawnus y dyfodol yn ymddangos yn barod!

Mae ein Criw Cymraeg wedi bod yn gweithio gyda Myfanwy Neal a Ceryl Stephens i ddysgu gemau buarth newydd

Daeth Jess Stacey o'r Urdd i roi hyfforddiant i'n harweinwyr ifanc.

**Cymdeithas Brodwaith Cymru**

Mae Cymdeithas Brodwaith Cymru yn cynnig ysgoloriaeth bob blwyddyn o hyd at £500 i fyfyriwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstilau mewn coleg. Bu nifer o fyfyrwyr yn llwyddianus yn y gorffennol a phleser oedd cael arddangos peth o'r gwaith ar stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn. Disgwylir i'r ymgeisydd fod yn 18 oed a throsodd.

Amcanion y Gymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, a threfnir cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinnir brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan ddefnyddio edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn. Mae gennym arddangosfa o waith yr aelodau yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

I gael ffurflen gais neu ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Medwen Charles,
Maes Meini, Rhyduchaf, Y Bala, LL23 7SD.
maes.meini@btinternet.com
Y dyddiad cau fydd 30 Ionawr, 2018.
Gyda diolch,
Yn gywir,
Medwen Charles

## Ysgol Evan James (tudalen 12)

Seren a Sbarc ar ddiwrnod lawnsio'r Siarter Iaith

Tudur Phillips yn clocsio

Gemau Buarth gyda Myfanwy Neal a Ceryl Stephens

## Ysgol Dolau (tudalen 12)

Mei Gwynedd yn dysgu cân y Fenter

Llangrannog

Arweinwyr Digidol

Bore Coffi MacMillan

Llysgenhadon Arbennig

Y Tîm Rygbi

Ani Llŷn gyda dosbarth Blodeuwedd

Dosbarth Tom Jones

Bl 6. @Bristol

Bore coffi gyda'r rhieni

## Colofn Blasus ac Iachus
(Tudalen 8)

# Ysgol Gyfun Garth Olwg

**Llangrannog**

Yn ddiweddar aeth blwyddyn saith ar antur fawr! Aethom i Langrannog! Gwibiais lawr at y bysiau gyda fy mag a oedd yn orlawn yn barod am y daith. Neidiais ar y bws gyda gwên gawraidd ar fy wyneb. Bant â ni! Eisteddais ar bwys un o fy ffrindiau gorau Libby. Yn ffodus i Libby a fi roedd y swogs yn eistedd o'n blaen! Gwnaethom gytundeb gyda'r swogs oedd yn eistedd o'n blaen y bydd rhaid iddyn nhw ein diddanu! Roeddent yn wych yn ein diddanu. Cymerodd y daith ddwy awr ond teimlodd fel awr.

Wrth gyrraedd Llangrannog roedd pawb yn gyffrous ac roedd yr holl swogs, staff a'r athrawon yn gyfeillgar iawn wrth ein croesawu. Ar ôl ymgartrefi yn ein hystafelloedd a dadbacio cawsom ginio blasus! Roedd y ffreutur fel ffair Nadolig, llawn danteithion melys a bwydydd dymunol i fwyta!

Roedd yna lawer o weithgareddau digri a hwyl i wneud yn Llangrannog fel nofio, cyrsiau antur, gwibgartio, marchogaeth a llawer mwy. Roedd pawb yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau, ac yn mynd yn fwdlyd ac yn wlyb diferu! Roedd y nosweithiau yn anghredadwy a hwyl! Er ein bod wedi blino'n lan ar ôl y dydd cyntaf cawsom dwmpath. Dawnsiom tan ddeg o'r gloch y nos! Roeddwn yn barod am y gwely erbyn hynny a thra fy mod yn cysgu cefais fy neffro gan larwm dân am dri o'r gloch y bore! Roedd pawb yn effro trwy'r nos ar ôl hyn!

Ar ôl diwrnod llawn ar yr ail ddiwrnod roedden wedi mynd i'r traeth ar ôl swper lle cafodd pawb eu gwlychu gan y môr. Wrth chwarae o gwmpas ar y ffordd lan, cafodd rhai ohonom ein gwlychu eto gan fws cyflym ar yr hewl! Cawsom hefyd ddisgo lle'r oedd y swogs yn rheoli'r gerddoriaeth (doedd ganddyn nhw ddim llawer o flas!)Ar ôl y noson hon roedd pawb wedi blino'n lan ond rhywsut ar ôl bwyta tunelli o losin roedd y merched yn yr ystafell (a fi) dal ar ddihun am 3 yb yn clebran! Doedd yr athrawon ddim yn hapus. Deffrom yn y bore yn drist i adael ond yn gyffrous i fynd adref i ddweud fy holl straeon wrth mam, dad, mam-gu a thad-cu. Dwi methu aros tan y trip nesaf i Langrannog. Gan Catrin England a Greta Williams Blwyddyn 7.

**Diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd**

Ar ddiwedd mis Medi, roedd yr ysgol wedi dathlu Diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd. Roedd llu o weithgareddau i ddathlu'r diwrnod pwysig hwn. Yn gyntaf, roedd y disgyblion wedi gwisgo mewn gwisgoedd oedd yn gysylltiedig ag Ewrop. Braf oedd gweld pawb yn eu gwisgoedd diddorol! Yn ail, roedd y diwrnod wedi gwreiddio mewn i wersi gyda thasgau dechreuol diddorol er

mwyn i ddisgyblion ddysgu mwy am Ewrop ac ieithoedd Ewropeaidd. Roedd y disgyblion wedi mwynhau cael blas ar Wyddeleg yn ystod eu gwersi Cymraeg! Roedd bwyd Ewropeaidd ar gael hefyd gan gynnwys croissants yn y ffreutur a'r chweched yn gwerthu wafflau amser cinio. Miam miam! Roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr ac roedd pawb wedi mwynhau. Edrychwn ymlaen yn barod am y diwrnod y flwyddyn nesaf.

**Taith Celf i Rydychen**

Roeddwn i wedi mwynhau'r daith yn fawr ac roedd yn gymorth enfawr i mi gyda'r pwnc wrth ystyried celf ar draws y byd. Am yr awr a hanner cyntaf cawsom y cyfle i edrych o gwmpas amgueddfa Pitt Rivers i weld celf oedd bron 2000 mlwydd oed. Fy hoff gelf i oedd y mygydau, oherwydd roedd e'n ddiddorol iawn i weld sut roedd y lleoliad yn effeithio ar steil y mygydau. Am weddill y diwrnod roedden ni wedi edrych o gwmpas Rhydychen a thynnu lluniau fel rhan o'n hunedau ffotograffiaeth. Yr unig beth wnes i ddim mwynhau oedd y ffaith doedd neb wedi rhoi gwybodaeth i ni ar rai o'r artistiaid ayb yn yr amgueddfa ac roedd angen i ni edrych o gwmpas yn hollol annibynnol. Gan Molly-Rose Blwyddyn 11

**Celfyddydau'r Garth**

Mae Blwyddyn 7 wedi bod yn brysur iawn yn ystod yr hanner tymor cyntaf. Gan ein bod ni yn Ysgol Arloesol, penderfynom lansio 'Celfyddydau'r Garth' ar Noson Agored Blwyddyn 5 a 6. O ganlyniad i hyn, cafodd pob un disgybl ym Mlwyddyn 7 gyfle i weithredu ar agweddau o gelfyddydau mynegiannol.

Diwrnod 1: Cafodd y disgyblion gyfle i greu teilsen glai oedd yn dangos a throsglwyddo eu diddordebau a'u doniau o fewn yr Adran Gelf. Cawsant gyfle i ddangos ac arbrofi gyda'u sgiliau perfformio mewn gweithdy Drama, ac yn ogystal â pherfformio, fe symudon nhw a dawnsio gyda'r Adran Ddrama. Mi fuodd pawb wrthi yn dysgu dwy gân a gafodd eu perfformio ar y Noson. Cân yr Ysgol yn sôn am weithgareddau bob dydd yr ysgol oedd y naill ac anthem newydd ein Hysgol oedd y llall, a'r cyfan dan arweiniad yr Adran Gerddoriaeth. Creodd yr Adran Ddylunio a Thechnoleg bropiau ar gyfer y set i'r sioe ar Noson Agored Bl 5 a 6.

Diwrnod 2 Cafodd pob disgybl y cyfle i ddewis pa faes yr hoffent gyfrannu ato ar y Noson Agored. Penodwyd criw ffilmio, criw

actio, criw canu a pherfformio, heb anghofio'r criw oedd angen cynllunio a chreu'r set gyfan! Eto diwrnod o waith caled yn gweithio ar eu diddordebau a'u doniau!

Diwrnod 3: Ymarfer, ymarfer a mwy o ymarfer ar gyfer y Noson Agored! Adeiladwyd y set, gosodwyd ein baneri ar gyfer y Llysoedd, a sicrhawyd bod y criw golau a ffilmio yn barod ar gyfer y noson. Noson Agored i rieni a disgyblion Blwyddyn 5 a 6 - Sioe Celfyddydau'r Garth Os hoffech wylio'r sioe, dilynwch ni ar Facebook CelfyddydaurGarth ac ar Instagram/Twitter i weld mwy o ddatblygiadau'r Celfyddydau. Edrychwn ymlaen nawr at ein hail brosiect i rannu cyn y Nadolig! Dylid cydnabod a diolch i'r adrannau celfyddydol o dan arweiniad Mrs Amanda Jones, am eu gwaith caled, brwd a chreadigol yn y fenter gyffrous hon.

**Ysgol Haf Nuffield**

Anrhydedd mawr i'r ysgol oedd cael 3 disgybl yn derbyn ysgoloriaeth Nuffield i wneud ymchwil gwyddonol dros yr haf. Mae'r gystadleuaeth am lefydd yn uchel iawn. Cafodd ein tri disgybl gyfle i ymuno gyda'r myfyrwyr eraill mewn noson ddathlu yn Nhechniquest lle gyflwynon eu hymchwil. Cyflwynwyd tystysgrifau iddynt gan enillydd Gwobr Nobel, Syr Martin Evans. Dyma adroddiadau'r disgyblion ar eu profiadau:

Joe Thomas - Gweithiais gyda gwyddonwyr ym Mhrifysgol Caerdydd. Dyluniais, cynnal a dadansoddi arbrawf yn ymchwilio i adnabyddiaeth patrymau yn yr Ysgol Seicoleg. Teitl fy mhrosiect oedd Cymharu Strwythurau Categorïau gan ddefnyddio offer 3D. Rhedais i arbrawf ar tua 10 person a dadansoddais y data gasglais i. Darganfyddais nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng offer 2D a 3D yn y math hwn o arbrawf a hefyd bod gwahaniaeth arwyddocaol mewn perfformiad pan roedd y dimensiwn siâp ar yr ail ddimensiwn o'i gymharu gyda'r trydydd. Ysgrifennais fy ymchwil ar ffurf adroddiad ac ar boster.

Caitlyn Brown – Cefais gyfle dros yr haf i dreulio pedair wythnos ym mhrifysgol Caerdydd gyda'r adran Seicoleg. Yn wahanol i'r disgyblion eraill o'n hysgol, cefais fy lleoli yn CUBRIC (Cardiff University Brain Research Imaging Centre). Mae'r ganolfan yn arbrofi gyda llawer o dechnoleg newydd, gan gynnwys un o dri sganiwr MRI Tesla y byd. Roedd fy mhrosiect yn ymchwilio i somatosensation ac a yw llaw drechol unigolyn yn medru nodi cyffwrdd manwl gywir gyda mwy o gywirdeb.

Cynhaliais arbrofion, dadansoddi a phrosesu data, a chreu adroddiad gwyddonol. Roedd y profiad hwn yn fythgofiadwy ac yn bwysig iawn am fy nyfodol.

Nyasha Thomas - Ces i'r cyfle i weithio gydag ymchwilydd ôl ddoethuriaeth yn yr Ysgol Seicoleg ym Mhrifysgol Caerdydd, yn ymchwilio ffenomenon o'r enw 'rhwymo amserol', sy'n effeithio ar sut rydym yn canfod amser. Roedd fy ymchwil yn ffocysu ar sut mae ymwybyddiaeth o achos ac effaith yn dylanwadu ar ein canfyddiad o amser. Roedd y lleoliad yn cynnwys gweithio yn Adeiladau'r Brifysgol, casglu data yn Nhechniquest a gweithio gyda rhai gweithwyr proffesiynol anhygoel.

**Cyngor yr ysgol yn tyfu!**
Cyngor yr ysgol yn cwrdd am y tro cyntaf eleni. Yn ystod mis Medi etholodd disgyblion yr ysgol gynrychiolwyr dosbarth i fod ar gyngor bob blwyddyn ysgol. Ar ddiwedd y mis etholodd bob cyngor blwyddyn gynrychiolwyr i fod ar gyngor yr Ysgol. Yn wahanol i flynyddoedd cynt, cafodd aelodau'r cyngor llynedd y cyfle i aros ymlaen a braf oedd gweld y mwyafrif yn ymrwymo, a'r cyngor yn llawn o ddisgyblion brwdfrydig. Mae 4 is-bwyllgor wedi'u creu gyda'r senedd yn arwain y gwaith mewn ffordd drefnus a brwdfrydig.

**Etholiad Prif Swyddogion**
Rydym yn llongyfarch Ethan Williams a Lucas Watts am gael eu hethol yn Brif Swyddogion. Llongyfarchiadau hefyd i Carys Bowen a Daniel Townley-Keogh sydd wedi cael eu hethol yn Ddirprwy Brif Swyddogion. Ar ôl proses ddwys o areithiau, chyfweliadau a phleidlais, mae'r pedwar yn edrych ymlaen at gynrychioli'r ysgol ac yn llawn o syniadau er mwyn symud Garth Olwg ymlaen dros y flwyddyn i ddod.

**Llwyddiant Nofio**
Llongyfarchiadau i Ella Minas Blwyddyn 9 am ei llwyddiant mewn gala nofio yn Jersey yn ddiweddar. Roedd clybiau Jersey'n cystadlu yn ogystal ag ychydig o glybiau y tu allan. Llwyddodd Ella i ennill 4 medal aur, 4 arian ac 1 efydd. Da iawn ti!

**Pêl-rwyd**
Llongyfarchiadau i Shauna Whincop, Blwyddyn 11 a Freya Williams, Blwyddyn 10 sydd wedi cael eu dewis ar gyfer carfan pêl-rwyd dan 16 y sir ac i Lara Watts, Nia Williams a Carys Minton am gael eu dewis.

**Rhwydwaith Seren**
Mae'n bleser gennym eich hysbysu fod pump o'n disgyblion o flwyddyn 12 wedi eu hadnabod gan Lywodraeth Cymru fel rhai o blith y mwyaf galluog ar draws Cymru a'u bod wedi derbyn gwahoddiad i fod yn rhan o Rwydwaith Seren. Y meini prawf a osodwyd gan y Llywodraeth oedd eu bod wedi ennill o leiaf 3 gradd A* yn eu harholiadau TGAU. Bu'r disgyblion yn rhan o'r lansiad swyddogol o Hwb Rhondda Cynon Taf ar nos Fawrth Medi'r 26ain yng Ngholeg y Cymoedd, Nantgarw. Roedd Lucas Watts, disgybl o flwyddyn 13 yma yng Ngarth Olwg, yn annerch y gynulleidfa gan sôn am ei brofiadau positif fel aelod o'r rhwydwaith y llynedd. Y disgyblion o flwyddyn 12 sy'n cymryd rhan eleni yw: Ieuan Davies, Seren Lloyd-Ellis, Bethan Horscroft-Preest, Morgan Evans a Jake Spencer. Bydd y Llywodraeth yn darparu cyfleoedd ychwanegol i ymestyn a herio'r disgyblion tu hwnt i'r ddarpariaeth sydd yn yr ysgol eisoes.

# Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

**Wythnos Iachus**
Mwynheuodd yr ysgol ddathlu wythnos iachus ar ddechrau'r mis. Trefnwyd llu o weithgareddau gwahanol ar gyfer bob dosbarth e.e. sesiynau Taekwondo, gweithdy rygbi, beicio, ymwelaid gan y nyrs a'r optegydd yn ogystal â sesiwn Zumba ysgol gyfan ar yr iard.

**The Brilliant Club**
Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu partneriaeth gydag elusen addysgiadol o'r enw 'The Brilliant Club' ac mae'r ysgol yn rhan o gynllun newydd sy'n cael ei redeg gan yr elusen. Bydd 12 disgybl o'r ysgol yn cael eu tiwtora gan wyddonydd ymchwil o Brifysgol Caerdydd yn ystod y misoedd nesaf i'w cynorthwyo i ddatblygu eu gwybodaeth am bynciau STEM tu hwnt i'r hyn y maent yn ei ddysgu yn y gwersi. Y 12 disgybl sydd wedi eu dewis eleni yw: Ceira Mantle, Brychan Lewis ac Annwylun Pike (Blwyddyn 9), Anwen Davies, Emily Fullard-Jones, Efan Fairclough, Huw Griffiths, Gruff Roberts, Chantae Davies, Jordan Driscoll, Brianne Jones ac Erin Mantle (Blwyddyn 10) Mynychodd y disgyblion y lansiad swyddogol ym Mhrifysgol Caerdydd ddydd Iau Hydref y 12fed. Byddant wedyn yn derbyn 5 sesiwn tiwtora yn yr ysgol. Yn dilyn hyn bydd angen iddynt gwblhau aseiniad 2000 o eiriau a gaiff ei asesu yn unol ag arddull graddau Prifysgol. Ar ddiwedd y cynllun caiff disgyblion llwyddiannus fynychu seremoni raddio arbennig. Rydym yn hynod falch o'r disgyblion hyn ac yn dymuno pob llwyddiant iddynt gyda'r cynllun cyffrous hwn.

**Gwasnaeth Mr Davies, Miss Hughes a Mr Meredith a Mrs Bode**
Diolch i ddosbarth Mr Davies (Blw 5), Mrs Bode (Blw4) a Miss Hughes a Mr Meredith (Blw 6) am baratoi eu gwasanaethau dosbarth. Braf oedd gweld cymaint o rieni a Neiniau a Theidiau yn cefnogi.

**Pêl-rwyd**
Da iawn i dîm pêl rwyd yr ysgol am berfformiad ardderchog yn nhwrnament yr Urdd. Diolch i'r rieni a ddaeth i gefnogi.

**Banc bwyd**
Diolch i bawb am eu cyfraniadau at y Banc Bwyd. Diolch hefyd i Mr Gruffydd ar plant am fynd a'r tiniau lawr i'r Banc Bwyd ym Mhontyclun.

**Gwasanaeth Cynhaeaf**
Diolch i'r Pach Rosa Hunt am ei chroeso yng Nghapel Salem ar gyfer y Gwasanaeth Cynhaeaf.

**NSPCC**
Diolch i bawb am godi arian ar gyfer yr elusen NSPCC. Casglwyd £1309.60.

**Côr**
Dyma côr yr ysgol yn recordio cân i ddathlu bod Menter Iaith RCT yn 25 mlwydd oed.

**Rygbi**
Da iawn i dîm rygbi yr ysgol am gyrraedd y rownd gyn-derfynol yn nhwrnament Ysgolion Pontypridd.

## Ponty yn mynd o nerth i nerth...

Cafwyd seibiant yn ymgyrch Uwch-adran y Principality ym mis Hydref wrth i gemau Cwpan Prydain ac Iwerddon gael eu chwarae, gyda thimau yn cynrychioli'r pedwar rhanbarth Cymraeg yn cymryd rhan.

Yn y gorffennol clybiau fel Pontypridd oedd yn cael yr hawl i chwarae yn y Cwpan, a chafwyd gornestau bythgofiadwy yn erbyn timau megis Leinster, Caeredin, y Cornish Pirates a Bryste.

Erbyn hyn, yn ôl doethineb Undeb Rygbi Cymru, timau rhanbarthol sy'n cynrychioli'r wlad, a hynny yn peri dicter a digofaint ymysg cefnogwyr Ponty, ond stori arall yw honno!

Cyn yr egwyl roedd Ponty wedi chwarae saith gêm yn yr Uwch-gynghrair, ac wedi mynd o nerth i nerth wedi dechrau anghyson i'r tymor. Llwyddwyd i ennill pedair gêm o'r bron, gan godi Pontypridd i'r ail safle yn isadran y dwyrain, gyda Bedwas yn unig uwch eu pennau. Roedd y tîm yn chwarae rygbi mentrus, yn ymosod o bob rhan o'r cae ac yn sgorio ceisiau cofiadwy.

Uchafbwynt y tymor hyd yn hyn oedd y gêm oddi cartref yn erbyn Caerdydd ar 7fed o Hydref. Roedd hon yn gêm o safon uchel rhwng dau dîm oedd yn gwbwl ymroddedig. Ponty oedd yn fuddugol o 28pt i 46 gan sgorio chwe chais.

Mae nifer o chwaraewyr ifanc Pontypridd wedi gwneud eu marc yn ystod y tymor, fel y cefnwr Lloyd Rowlands, y prop Will Davies-King a'r blaenasgellwr Morgan Sieniawski. Eu gwobr oedd cael eu dewis i gynrychioli carfan ddethol y Gleision yn gemau Cwpan Prydain ac Iwerddon - carfan sy'n cael ei pharatoi gan hyfforddwr Ponty Justin Burnell.

I ddilyn holl hynt a helynt Clwb Rygbi Pontypridd, galwch mewn i'r wefan newydd www.ponty.net - mae croeso i bawb!

## Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau (Tudalen 12)

Ymweliad Seren a Sbarc

Mei Gwynedd a Chôr yr ysgol

Pencampwyr Pêl-rwyd yr Urdd

## Ysgol Tonyrefail (tudalen 5)

Ymarfer Sgiliau Pêl-droed

Ffeil yn holi criw Apollo 15

Mei Gwynedd yn ymarfer Cân y Fenter

Mwynhau blasu bwydydd yr hydref

Pencampwyr Rygbi Saith bob ochr Ysgolion Pontypridd

Cerdyn Coch i Hiliaeth